# Ceredigion 360: Arolwg Gweithredol

## Paratowyd ar ran Bro 360 (Golwg Cyf.)
## Ionawr 2022

y ganolfan cynllunio iaith
welsh centre for language planning

Paratowyd gan

**IAITH: y ganolfan cynllunio iaith**

Awdur: Gareth Ioan

IAITH Cyf., Uned 3, Parc Busnes Aberarad,Castellnewydd Emlyn, Sir Gâr, SA38 9DB

01239 711668 www.iaith.cymru post@iaith.cymru

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Llywodraeth Cymru a’r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

# Cynnwys


| | | Tud. |
|---|---|---|
| | | |
| **1.0** | **Cefndir a chyd-destun** | **4** |
| 1.1 | Y Prosiect: Bro 360 | 4 |
| 1.2 | Yr Ardaloedd Targed | 5 |
| 1.3 | Siaradwyr Cymraeg | 6 |
| | | |
| **2.0** | **Y Gofynion** | **7** |
| | | |
| **3.0** | **Dull Gwaith** | **8** |
| | | |
| **4.0** | **Canfyddiadau** | **11** |
| 4.1 | Cyfweliadau a holiaduron ar-lein | 11 |
| 4.2 | Holi busnesau lleol | 19 |
| 4.3 | Trafodaethau'r gweithdai syniadau | 23 |
| 4.4 | Materion cyd-destunol | 24 |
| | | |
| **5.0** | **Casgliadau** | **27** |
| | | |
| **6.0** | **Argymhellion** | **29** |
| | | |
| **7.0** | **Model o Gynllun Busnes** | **30** |
| 7.1 | Staffio a chostau | 30 |
| 7.2 | Gwirfoddolwyr | 31 |
| 7.3 | Ffynonellau incwm | 32 |
| | | |
| **8.0** | **Cynllun Gweithredu** | **35** |
| | | |
| | **Llyfryddiaeth** | |

# 1.0 Cefndir a chyd-destun

## 1.1 Y Prosiect: Bro 360

Mae Bro 360 yn brosiect a hyrwyddir gan gwmni Golwg Cyf. ers 2019.

Sefydlwyd cwmni Golwg yn 1988 i ddarparu newyddiaduraeth Gymraeg annibynnol a oedd yn cyfuno materion y dydd ag elfennau cylchgrawn o fewn cloriau cyhoeddiad wythnosol o ansawdd safonol. Gyda thwf newyddiaduraeth ddigidol ym mlynyddoedd troad y ganrif, sefydlwyd Golwg 360 yn llwyfan digidol ar gyfer rhannu newyddion cyfrwng Cymraeg. Gweithreda Golwg 360 yn gyfochrog ac yn annibynnol i wasanaeth BBC Cymru Fyw – llwyfan newyddion a chylchgrawn Cymraeg digidol cyfatebol y BBC.

Eto, gyda'r byd digidol yn parhau i gynyddu mewn cyrhaeddiad a dylanwad, yn 2015 arloeswyd gyda phrosiect ar lefel leol ar y cyd â phapur bro Llanbedr Pont Steffan, Clonc. Galwyd y prosiect yn Clonc 360. Y bwriad oedd sefydlu platfform digidol ar gyfer newyddion 'hyperleol', yn unol â datblygiadau cyffredin yn y maes newyddiaduraeth gyfoes. Canlyniad i lwyddiant y peilot hwnnw fu sefydlu Bro 360 yn 2019 gyda chymorth £1.1 miliwn o gronfa Rhaglen Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd.

Erbyn hyn mae'r prosiect wedi sefydlu wyth llwyfan digidol Cymraeg ar gyfer newyddion 'hyperleol' a gynhyrchir mewn partneriaeth rhwng newyddiadurwyr y cwmni a gwirfoddolwyr lleol. Y llwyfannau cyfredol yw:

| | |
|---|---|
| Clonc 360 | Bangor Felin 360 |
| Bro Aber 360 | Caernarfon 360 |
| Caron 360 | Ogwen 360 |
| Dyffryn Nantlle 360 | Bro Wyddfa 360 |

Mae'r gwefannau hefyd yn gysylltiedig â dalenni *Facebook* perthynol.

Syniad canolog y prosiect yw creu cyfryngau digidol syml-eu-defnydd sy'n hwyluso pobl i gynhyrchu eu cynnwys newyddion Cymraeg lleol eu hunain, gan gyfrannu at fwrlwm cymdeithasol eu broydd a hyfywedd y Gymraeg. Yn y cyswllt hynny mae'r prosiect yn ymateb i sawl her cyfredol a welir mewn nifer o gyd-destunau polisi cyhoeddus, e.e.:

- diffygion cyffredinol mewn newyddiaduraeth Gymreig, yn enwedig trwy gyfrwng y Gymraeg;
- heriau sy'n wynebu papurau bro o ran bod eu darllenwyr yn symud i lwyfannau digidol ac oedran darllenwyr traddodiadol yn heneiddio;
- heriau o ran cynnal a chynyddu'r defnydd o Gymraeg gan unigolion ac fel cyfrwng cymdeithasol;
- heriau cyffredinol o ran cynnal ymwneud cymdeithasol a diwylliant o wirfoddoli'n lleol,
- heriau o ran cynnal economïau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn nodwedd gymdeithasol arwyddocaol;
- heriau o ran cynnal nifer o'r gwerthoedd craidd a fynegir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Ceir ymdriniaeth mwy helaeth ar y materion cyd-destunol uchod yn y ddau adroddiad gwerthusol a baratowyd gan Ymgynghoriaeth Wavehill yn 2020 a 2021.

Gweithredwyd Bro 360 hyd yma drwy arweiniad Cydlynydd Prosiect dan arweiniad a rheolaeth un o gyfarwyddwyr gweithredol Golwg Cyf.. Bu'r Cydlynydd yn arwain tîm o ddau Ysgogydd Lleol – yn Arfon a gogledd Ceredigion. At hynny, cafwyd mewnbwn technegol drwy drefniant llawrydd a chafwyd mewnbwn hefyd gan aelod(au) o dîm newyddiadurol Golwg a Golwg 360. Yn allweddol i'r prosiect, fodd bynnag, mae'r criwiau lleol o wirfoddolwyr sy'n cyfrannu straeon, yn golygu a gwirio testun ac yn hyrwyddo'r cynnwys yn lleol yn eu broydd. Mae'r gynhaliaeth a'r gefnogaeth a gaiff y tîm gwirfoddol gan y tîm proffesiynol yn allweddol i ddull gwaith y prosiect.

Mae Bro 360 ar hyn o bryd yn gweithredu yn Arfon a gogledd Ceredigion. Bwriad yr adroddiad hwn yw cyfrannu at drafodaeth benodol ynghylch bwriad cwmni Golwg Cyf. i ystyried ehangu'r prosiect Bro 360 i bedair ardal arall yng Ngheredigion, sef – Dyffryn Aeron, Bro Siôn Cwilt, Bro Teifi (sef ardaloedd Llandysul a Chastellnewydd Emlyn) ac ardal Aberteifi.

Rhagdybir bod Golwg Cyf. yn bwriadu cynnal a chynyddu'r 5 ardal Bro 360 a geir yn Arfon i rannau eraill o Wynedd maes o law, ynghyd ag ehangu i ardaloedd newydd mewn siroedd eraill. I ddibenion yr adroddiad hwn, fodd bynnag, cynnal y prosiect o fewn cyd-destun Ceredigion ac ardaloedd cyffiniol Dyffryn Teifi yw'r ffocws pennaf. Rhoddir disgrifiad cryno o'r bedair ardal targed yn Ne Ceredigion isod.

## 1.2 Yr Ardaloedd Targed

**Dyffryn Aeron**

Mae Dyffryn Aeron yn ardal sy'n dilyn yr afon Aeron o Aberaeron i Abermeurig a Phen-uwch ac yn cwmpasu ward etholiadol Aberaeron, Llansanffraid, Ciliau Aeron a Llanfihangel Ystrad. Mae tref glan môr Aberaeron yn ganolfan masnach a thwristiaeth amlwg. Mae ardal Felin-fach yn ganolbwynt economaidd a diwylliannol â'i ffatrïoedd amrywiol, ei theatr enwog a champws y Cyngor Sir. Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd yno boblogaeth o 7,819 gyda 4,193 (54%) yn siaradwyr Cymraeg. Gwasanaethir yr ardal gan bapur bro Llais Aeron.

**Bro Siôn Cwilt**

At ddiben y prosiect hwn mae Bro Siôn Cwilt yn gyfystyr â hen gwmwd Caerwedros ac yn cynnwys wardiau etholaethol Llanarth, Ceinewydd, Llandysiliogogo a Phenbryn. Mae Ceinewydd yn ganolbwynt i'r diwydiant twristaidd ond ceir cymdogaethau gwledig sy'n troi o gwmpas pentrefi megis Llanarth, Talgarreg, Caerwedros, Sarnau a Phontgarreg. Yn wahanol i'r ardaloedd eraill nid oes canolfan drefol i'r ardal hon ac mae twristiaeth yn nodwedd amlwg o economi'r pentrefi arfordirol. Gwasanaethir yr ardal gan ddwy ysgol fro gynradd – Ysgol Bro Siôn Cwilt, Synod Inn, ac Ysgol T Llew Jones, Brynhoffnant – a thair ysgol gynradd yn Llanarth, Talgarreg a Cheinewydd. Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd yno boblogaeth o 5,106 gyda 2,383 (47%) yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r ardal yn ffurfio rhan ogleddol o ddalgylch papur bro Y Gambo.

**Bro Teifi**

Mae Bro Teifi yn ardal ddaearyddol helaeth, gan ymestyn ar hyd y Teifi o Gapel Dewi i Genarth ac o Ffostrasol yn y gogledd i Bencader yn y de. Mae'n cynnwys ardaloedd ar bob tu'r Teifi, sef yn siroedd Ceredigion a Sir Gâr. Llandysul a Chastellnewydd yw'r ddwy dref ganolog. Mae'r ddwy yn ganolfannau i siopau, busnesau a gwasanaethau'r ardal ac mae gan y ddwy ysgol uwchradd.

Mae'r ardal yn cynnwys 8 ward etholiadol. Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd yno boblogaeth o 8,492 gyda 4,445 (52%) yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r ardal yn cyfateb yn fras i ddalgylch papur bro Y Garthen, er bod rhai ardaloedd gorllewinol yn dod dan fantell Y Gambo.

**Aberteifi**

Cyfrifir tref Aberteifi yn ganolog i'r ardal hon. Dilyna'r Teifi hyd Lechryd. I'r gogledd gall ymestyn drwy Ben-parc hyd at Aber-porth. Mae Llandudoch a Chilgerran, cymunedau sydd yn Sir Benfro, hefyd yn tynnu tuag Aberteifi fel tref farchnad. Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd yno boblogaeth o 6,650 gyda 3,037 (46%) yn siaradwyr Cymraeg. Mae papur bro Y Dwrgi yn gwasanaethu tref Aberteifi, tra bod pentrefi ar ochr Ceredigion yr afon yn dueddol o gael sylw yn Y Gambo. Clebran fyddai papur bro Llandudoch a Chilgerran.

## 1.3 Siaradwyr Cymraeg

Mae ystadegau moel yr ardaloedd ynghylch poblogaeth a siaradwyr Cymraeg fel a welir yn y tabl isod.

**Tabl 1: Poblogaeth a siaradwyr Cymraeg y bedair ardal darged.**

| Ardal | Poblogaeth 2011 | Nifer siaradwyr Cymraeg 2011 | % siaradwyr Cymraeg 2011 |
|---|---|---|---|
| **Dyffryn Aeron** | 7,819 | 4,193 | 54% |
| **Bro Siôn Cwilt** | 5,106 | 2,383 | 47% |
| **Bro Teifi** | 8,492 | 4,445 | 52% |
| **Aberteifi** | 6,650 | 3,037 | 46% |
| **Cyfanswm** | 28,067 | 14,048 | 50% |

Gwelir mai tua 14,000 o siaradwyr Cymraeg sydd yn yr ardaloedd targed (ar sail Cyfrifiad 2011) a'u bod yn 50% o'r boblogaeth leol. Mae wardiau perthnasol yn Sir Gâr a Sir Benfro wedi eu cynnwys yma.

O ystyried Ceredigion gyfan, yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd tua 73,000 o bobl yn byw yn y sir gyda thua 35,000 (47%) yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, mae Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 29 Mai 2019 yn nodi bod Arolwg Blynyddol y Boblogaeth 2018 yn amcan bod y ganran o siaradwyr Cymraeg yn uwch na hynny, sef 60.1% o'r boblogaeth - tua 44,000 o bobl.[1] Gan fod adrodd ar sgiliau iaith yn fater goddrychol, diau bod y gwir amcan rhywle yn y canol.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y Gymraeg yng Ngheredigion yn y ddogfen Proffil Iaith Ceredigion[2] a gomisiynwyd gan Cered: menter iaith Ceredigion yn 2016.

[1] Canlyniadau mewn perthynas â'r Gymraeg: Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, 2001 i 2018 (llyw.cymru)
[2] Proffil Iaith Ceredigion - Cyngor Sir Ceredigion

# 2.0 Gofynion

### Nod yr ymchwil

Deallir mai nod triphlyg y prosiect yw:

- darganfod a oes awydd i greu a chynnal gwefannau bro bywiog, cynaliadwy ar draws Ceredigion gyfan, a
- chreu model masnachol cynaliadwy i wneud gwahaniaeth i ragor o gymunedau – o ran y Gymraeg, datblygu cymunedol a’r economi leol.

At hynny, roedd gofyn i’r ymgynghorydd astudio potensial tyfu’r prosiect ymhellach a pharatoi am ddatblygiadau technegol neu arall yn y maes.

### Amcanion yr ymchwil

Yn unol â’ch brîff mae’r amcanion gweithredol yn cynnwys:

- Adnabod ac ymgyfarwyddo â phrosiect Bro360 a photensial gwefannau bro, ac addasu’r dulliau gweithredu blaenorol i gyd-fynd â’r gynulleidfa newydd.
- Ymgysylltu a chynnal sgyrsiau creadigol gyda mudiadau, arweinwyr yn y gymuned a busnesau yn y bröydd canlynol: Aberaeron a Dyffryn Aeron, bro Sion Cwilt, ardal Llandysul ac ardal Aberteifi, i’w helpu i adnabod eu hanghenion a’u potensial eu hunain i greu a chynnal gwefannau straeon lleol.
- Archwilio’r galw gan fusnesau a chwsmeriaid i fanteisio ar blatfform newydd Cymraeg i hybu masnach leol.
- Archwilio dulliau o ariannu cynnal gwefannau lleol-iawn mewn modd cynaliadwy.
- Adnabod y gallu sy’n bodoli’n lleol ar hyn o bryd ar gyfer datblygu’r cynllun hwn yn y tymor byr, ac unrhyw fylchau yn y gallu sydd angen eu llenwi.
- Cynghori ar lunio cynllun busnes fydd yn galluogi ymestyn rhwydwaith o wefannau Bro360 yn y bröydd uchod, ond a fydd yn addas i’w ddefnyddio fel model graddadwy ar gyfer y prosiect yn y tymor hir.

### Allbynnau’r prosiect ymchwil

Eto, yn unol â’ch brîff mae allbynnau disgwyliedig y prosiect fel a ganlyn:

- Adroddiad clir sy’n amlinellu, yn gryno, canlyniad y gwaith ymgysylltu ac ymchwil gyda rhanddeiliaid ym mhob cymdogaeth.
- Rhestr o bartneriaid allweddol sydd wedi cytuno i gydweithio ar y gwaith datblygu ymhellach, gan gynnwys ‘criw llywio’ i bob bro.
- Crynodeb manwl o’r gallu a chapasiti sy’n bodoli eisoes yn yr ardaloedd dan sylw, ac un unrhyw fylchau sydd angen eu llenwi.
- Cynllun gweithredu clir ar gyfer ymestyn rhwydwaith bresennol gwefannau Bro360 i gynnwys cymunedau de Ceredigion, a chynllun ar gyfer ymestyn y rhwydwaith yn gynaliadwy yn ehangach na’r ardal ddaearyddol honno.
- Ar y cyd â thîm staff Bro360, ystyried y newidiadau posib yn y dyfodol o ran llwyfannau ar-lein sy'n dod i'r amlwg a newidiadau technolegol eraill.

# 3.0 Dull Gwaith

I gyflawni amcanion y prosiect mabwysiadwyd dull gweithredu a ddisgrifir yn gyffredinol fel ymchwil weithredol (*action research*). Mae ymchwil weithredol yn ddynesiad ymchwil sy'n canolbwyntio ar fwriadau ymarferol tra, ar yr un pryd, yn rhoi ystyriaeth i agweddau theoretig y broses. Mae'n ddull gwaith sy'n caniatáu'r ymchwilwyr, y client a gwrthrych yr ymchwil i gydweithio er mwyn dod i gasgliadau realistig, synhwyrol a chynaliadwy ynghylch dibenion a chanlyniadau'r ymchwil.

Felly, yn y cyd-destun hynny, rhoddwyd y dull gwaith canlynol ar waith.

### 1. Dod i ddeall y prosiect a'i gyd-destun

Ymgyfarwyddodd y tîm ymchwil â phrosiect Bro 360 drwy:

- gynnal cyfarfod cychwyn prosiect gyda'r cleient i gytuno ar sgôp y gwaith a natur yr allbynnau,
- cynnal trafodaethau dilynol gyda staff y prosiect ynghylch y dulliau gwaith cyfredol a hanesyddol, gan gynnwys adnabod gwersi a ddysgwyd;
- ymchwil pen-desg:
    - i'r gwefannau eu hunain;
    - dogfennaeth strategol ar ffurf cynlluniau ac adroddiadau mewnol y prosiect,
    - adroddiadau gwerthusol allanol a baratowyd gan Ymgynghoriaeth Wavehill, a
    - dogfennaeth strategol berthnasol yn y maes cynllunio iaith a datblygu economaidd.
- sgyrsiau anffurfiol gyda gwirfoddolwyr allweddol.

### 2. Ymgysylltu ag unigolion allweddol yn lleol

2.1 <u>Cyfweliadau ag unigolion allweddol</u>

Ymgysylltwyd yn uniongyrchol â thua ugain o arweinwyr yn y gymuned o fewn y bedair ardal:

- Aberaeron a Dyffryn Aeron (20),
- Bro Siôn Cwilt (17),
- ardal Llandysul a Chastellnewydd Emlyn (19), ac
- ardal Aberteifi (20).

Holwyd 76 o unigolion allweddol yn gyfan gwbl. Mae'r unigolion hyn yn weithredol yn eu hardaloedd ac yn cynrychioli ystod o fudiadau a sefydliadau lleol, e.e.

- papur bro lleol,
- ysgolion cynradd ac uwchradd
- Mudiad Meithrin,
- Urdd Gobaith Cymru,
- C.Ff.I.,
- clybiau ieuenctid,
- neuaddau pentref,
- clybiau chwaraeon,
- capeli ac eglwysi,
- cynghorwyr sir,
- cynghorau tref a chymuned,
- cymdeithasau diwylliadol,
- sioeau gwledig a grwpiau amaethyddol eraill,
- mudiadau datblygu cymunedol ac economaidd.

Roedd y sgyrsiau gyda'r uchod yn ceisio mesur yr awydd a'r potensial i sefydlu gwefannau newyddion lleol, gan gywain gwybodaeth am y canlynol:

- eu barn ynghylch yr angen a phriodoldeb sefydlu gwefan 360 leol,
- y math o ddeunydd a allai fod yn ddeniadol ac apelgar i ddarpar 'ddarllenwyr' a chyfranwyr,
- y sgiliau a allai fod ar gael yn lleol i gynnal gwefan leol 360,
- heriau a chyfleoedd a fyddai'n wynebu'r prosiect o symud ymlaen, ac
- unigolion eraill a fyddai'n debygol o fod â diddordeb yn y prosiect.

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda nhw ar y ffôn gan fwydo atebion i fframwaith holiadur electronig. At hynny, cadwyd nodiadau maes o bwyntiau perthnasol a wnaed gan y cyfranwyr.

Cynhaliwyd y cyfweliadau rhwng 1 Tachwedd a 22 Rhagfyr.

2.2 Holiadur electronig

Yn ychwanegol at y sgwrs uniongyrchol gydag unigolion allweddol, dosbarthwyd gwahoddiad agored – drwy'r papurau bro lleol a'r cyfryngau cymdeithasol – i unigolion â diddordeb i gysylltu â ni yn uniongyrchol i fynegi diddordeb a barn drwy holiadur ar-lein.

Cafwyd 39 ymateb uniongyrchol o ganlyniad i'r gwahoddiad agored.

2.3 Gweithdai rhannu syniadau

Yn dilyn ymgysylltu â'r cyfwelai, ynghyd â derbyn enwau unigolion eraill oedd â diddordeb, cynhaliwyd cyfleoedd ar-lein, drwy gyfrwng cyfarfodydd Zoom, i unigolion â diddordeb rannu eu syniadau a'u gobeithion gydag eraill. Drwy hynny, sefydlwyd cnewyllyn o weithgor potensial (Criw Llywio Lleol) ar gyfer pob bro. Roedd y sesiwn drafod ar-lein yn gyfle i rannu canlyniadau'r holiadur lleol, i esbonio y cynllun a'i botensial yn fanylach ac yn fodd o fwydo'r drafodaeth leol ymhellach.

Roedd y cyfarfodydd ar-lein hefyd yn gyfle i bwyso a mesur y gallu a'r brwdfrydedd o fewn yr ardaloedd unigol o ran cynnal gwefan leol, gan adnabod unrhyw fylchau posibl mewn sgiliau ac adnoddau.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd rhithiol yma rhwng 10-13 Ionawr 2022. Cynullwyd y nifer canlynol o unigolion i'r gweithdai rhannu syniadau:

- Aberaeron a Dyffryn Aeron (17),
- Bro Siôn Cwilt (7),
- Bro Teifi – ardal Llandysul a Chastellnewydd Emlyn (6), ac
- ardal Aberteifi (5).

## 3. Ymgysylltu â busnesau lleol

Cysylltwyd â 35 busnes lleol drwy'r bedair ardal i drafod y potensial o fedru ennyn cefnogaeth ariannol i'r gwefannau lleol arfaethedig drwy osod hysbysebion neu drwy gynnig nawdd neu ddulliau eraill posibl.

- Aberaeron a Dyffryn Aeron (10),

- Bro Siôn Cwilt (6),
- Bro Teifi – ardal Llandysul a Chastellnewydd Emlyn (10), ac
- ardal Aberteifi (9).

Busnesau manwerthu, gwasanaeth a lletygarwch a holwyd yn bennaf. Gwnaed ymdrech, fodd bynnag, i holi busnesau a oedd yn cynrychioli ystod o wahanol feysydd busnes. Er mwyn sicrhau atebion ystyrlon ac awdurdodedig, dewiswyd holi busnesau lle roedd y perchnogion neu reolwyr allweddol yn bresennol ar y pryd. Cynhaliwyd sgyrsiau wyneb-yn-wyneb gyda'r unigolion hyn a bwydwyd yr atebion i fframwaith holiadur electronig er mwyn eu dadansoddi fel corff o ddata.

Holwyd y perchnogion a/neu reolwyr allweddol ynghylch:

- priodoldeb ac addasrwydd y syniad o sefydlu gwefan 360 lleol i'w hardaloedd,
- eu parodrwydd i ystyried hysbysebu a/neu noddi gwefan leol a/neu wefannau 360 eraill,
- eu patrymau hysbysebu a noddi cyfredol, ynghyd â'u
- diddordeb mewn ymuno â chlwb busnes ar-lein fel rhan o becyn o wasanaethau a gynigir gan y prosiect.

O ystyried y pwysau amser sydd ar fusnesau bychain lleol, diolchir i gynrychiolwyr yr holl fusnesau am roi o'u hamser i'r prosiect ymchwil hwn.

## 4. Llunio adroddiad

Yn sgil yr ymarferion uchod coladwyd y wybodaeth a gasglwyd er mwyn llunio'r adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad yn ddisgrifiad cryno o ganfyddiadau'r gwaith maes ar ffurf meintiol ac ansoddol.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnig sail i fodel busnes posibl a awgrymir ar gyfer cynnal ac ehangu'r prosiect ar draws Ceredigion gyfan i'r dyfodol, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer cynllun gweithredu ar gyfer gwireddu bwriadau'r prosiect i'r dyfodol.

Hyderir hefyd ei fod yn cynnig model a fydd yn addas i'w efelychu a'i addasu ar gyfer cadarnhau a datblygu Bro 360 mewn ardaloedd eraill.

# 4.0 Canfyddiadau

## 4.1 Cyfweliadau a holiadur ar-lein

Mae'r canfyddiadau isod yn ganlyniad i gyfweliadau ffôn lled-strwythurol a gafwyd gan arweinwyr cymunedol yn y bedair ardal. At hynny, rhyddhawyd gwahoddiad agored drwy hysbysebion mewn papurau bro lleol (Llais Aeron, Y Gambo, Y Garthen a Y Dwrgi) ynghyd â'r cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau lleol i unigolion â diddordeb i lenwi holiadur ar-lein.

Cynhaliwyd 76 cyfweliad ffôn:

- Dyffryn Aeron (20)
- Bro Siôn Cwilt (17)
- Bro Teifi (19)
- Aberteifi (20)


At hynny, fe gyfrannodd 39 arall drwy ymateb i'r holiadur ar-lein. Gan wneud cyfanswm o 115 o gyfranwyr.

**Tabl 2: Cofnod o gyfweliadau a holiaduron a gwblhawyd**

| Ardal | Cyfweliadau | Holiadur ar-lein | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Dyffryn Aeron | 20 | 14 | 34 |
| Bro Siôn Cwilt | 17 | 4 | 21 |
| Bro Teifi | 19 | 8 | 27 |
| Aberteifi | 20 | 6 | 26 |
| Arall | - | 7 | 7 |
| Cyfanswm | **76** | **39** | **115** |

<u>Proffil demograffig</u>

Roedd 77 (675) o'r cyfranwyr yn fenywod a 38 (33%) yn wrywod. Roedd proffil oedran yn pwyso tuag at y canol oed ond gyda cynrychiolaeth gyson ar draws yr ystod oedran, fel a ganlyn:




Ymwybyddiaeth

Holwyd y cyfranogwyr ynghylch eu hymwybyddiaeth o brosiect Bro 360. Roedd proffil yr atebion fel a ganlyn:

- Erioed wedi clywed am Bro 360 (12%)
- Wedi clywed am Bro 360 ond heb ymweld â'r wefan (31%)
- Wedi ymweld ag un o wefannau Bro 360 yn achlysurol (42%)
- Yn ymweld ag un o wefannau Bro 360 yn rheolaidd (10%)
- Yn ymweld ag un o wefannau Bro 360 yn aml (5%)

Ar y cyfan, roedd ymwybyddiaeth y cyfranogwyr o brosiect Bro 360 yn uchel, gyda 88% o'r unigolion a holwyd yn ymwybodol ohono a 57% wedi ymweld â'r wefan ar o leiaf un achlysur.

Q5 Cyn y cyswllt hwn, i ba raddau oeddech chi'n ymwybodol o wefan(nau) Bro360?




Yn ystod y cyfweliadau nododd nifer sylweddol eu bod yn cyrchu Bro 360 trwy ddilyn dolenni ar *Facebook* neu *Instagram*.

## Y Syniad Craidd

Holwyd y cyfranwyr ynghylch y syniad craidd o ehangu prosiect Bro 360 i'w hardal leol nhw. Roedd y mwyafrif llethol ohonyn nhw (97%) yn credu ei fod yn syniad da. Tri yn unig a atebodd yn y negyddol. Nododd dau eu bod yn ofni na fyddai digon o wirfoddolwyr i gynnal gwefan yn eu hardal nhw. Er hynny, serch yr amheuon, dim ond un o'r tri nad oedd am gael ei gynnwys yn y broses sefydlu.

Er bod y mwyafrif llethol o'r unigolion a holwyd yn gwbl gefnogol i'r syniad, roedd nifer ohonyn nhw'n nodi pryderon ac amheuon ynghylch y bwriad. Gellir crynhoi'r pryderon hynny fel a ganlyn:

- Pryder am allu'r prosiect i ddenu gwirfoddolwyr lleol i gynnal y wefan a chyfrannu straeon – yn enwedig o blith y genhedlaeth iau.
- Pryder am drethu arweinwyr cymunedol cyfredol gyda beichiau newydd.
- Pryder am effaith y wefan ar werthiant y papur bro lleol, gyda nifer yn awyddus i gyfuno'r ddarpariaeth gyda'r papur bro traddodiadol.
- Pryder y byddai'n torri ar draws adnoddau lleol cyfredol, e.e. calendrau digwyddiadau ar-lein gan gyrff eraill.

- Pryder ynghylch sicrhau darllenwyr a defnyddwyr digonol.
- Pryder ynghylch argaeledd y sgiliau technegol fyddai ei angen i gyfrannu at y prosiect.
- Pryder am reolau a deddfau ynghylch caniatáu lluniau ar-lein.
- Pryder y byddai rhwydwaith cymdeithasol y prosiect yn rhy gyfyng.
- Pryder bod grwpiau *Facebook* lleol eisoes yn lwyfannau ar gyfer newyddion lleol.
- Pryder a fyddai cefnogaeth digonol i lwyfan uniaith Gymraeg.
- Pryder a fyddai prosiect sy'n cael ei gyflwyno oddi fry yn ennyn perchnogaeth leol lwyddiannus.
- Pryder am allu'r prosiect i gynnal ansawdd a safon.
- Pryder y gallai fod yn llwyfan i ddadleuon gwleidyddol lleol.

Serch y pryderon hyn roedd y cyfranwyr yn gweld manteision cadarn i'r prosiect.

- Llwyfan da, cyfoes, cyfredol a hygyrch i gario newyddion lleol yn Gymraeg.
- Cynllun amserol i danio bwrlwm bro yn dilyn COVID-19.
- Dull da iawn o ddenu pobl ifanc at newyddiaduraeth, eu cael i ddefnyddio Cymraeg ar-lein a gwella eu sgiliau iaith a TG.
- Adnodd addysgol effeithiol i roi sgiliau iaith disgyblion ar waith.
- Cyfle i godi materion y dydd mewn cyd-destun lleol, e.e. yr amgylchedd, economi, tai ac ati.
- Cyfle i ehangu'r gynulleidfa ar gyfer newyddion cyfrwng Cymraeg i rwydweithiau newydd.
- Cyfle i gynnwys dysgwyr y Gymraeg mewn dull cyfoes.
- Llwyfan da i gynnal ymgynghoriadau cyhoeddus. (Nodwyd enghraifft o Bro Aber 360).
- Cyfle i gydweithio â phapurau bro traddodiadol a'u hatgyfnerthu.
- Cyfle i hyrwyddo bwrlwm bro a thynnu pobl newydd mewn i weithgarwch cymunedol.
- Cyfle da i dynnu nifer o gymdeithasau a rhwydweithiau lleol at ei gilydd.
- Cyfle da i rannu gwybodaeth am ymgyrchoedd lleol, e.e. tafarnau cydweithredol.
- Cyfrwng Cymraeg cyfoes a allai gystadlu gyda'r papurau Saesneg lleol.
- Cyfrwng i wrthbwyso dylanwad Seisnig grwpiau *Facebook* lleol.
- Dull gwych o greu archif digidol o newyddion lleol.
- Modd i gael newyddion lleol heb orfod defnyddio *Facebook*!

## Yr Ardal

Holwyd cyfranwyr ynghylch eu canfyddiad nhw o'r ardal leol. Cafwyd amrywiaeth yn yr atebion, gyda rhai'n cyfyngu'r ardal i'r lleol iawn ac eraill yn ehangu'r dalgylch tu hwnt i'r rhagdybiaethau arferol.

<u>Dyffryn Aeron</u>

Craidd yr ardal ym marn pawb yw pentrefi gwledig llawr y dyffryn o Giliau Aeron i Dal-sarn. Er nad oedd unoliaeth barn, byddai'r mwyafrif llethol yn cynnwys tref Aberaeron yn yr ardal a mwyafrif mawr hefyd yn ymestyn yr ardal i gynnwys pentrefi eraill sydd ar gyrion yr ardal, sef Llwyncelyn a Derwen-gam i'r de, Cribyn i'r dwyrain a Nebo a Llan-non i'r gogledd. Mae'r ardal honno yn cyfateb i ddalgylch cyfredol Llais Aeron ac fe'i hystyrir yn ardal weithredol gyfleus gan y mwyafrif.

<u>Bro Siôn Cwilt</u>

Roedd rhai yn gweld y fro hon yn gyfyngedig i Gaerwedros a Synod Inn yn unig. Roedd eraill, ar y llaw arall, yn gweld ei ffiniau'n lledu ymhellach, gan gynnwys pentrefi Ceinewydd, Llanarth, Talgarreg, Ffostrasol, Rhydlewis, Brynhoffnant, Llangrannog a Phenbryn. Byddai eraill yn ymestyn

yr ardal i'r de mor bell ag Aber-porth. Er yn llai poblog ac yn fwy gwledig na'r ardaloedd eraill, ymddengys o'r ymateb a gafwyd bod iddi hygrededd cymdeithasol. (Er hynny, o fwrw ymlaen â'r prosiect, byddai'n briodol ail ystyried yr enw a roddir ar yr ardal, gan bod nifer yn gweld yr enw'r adlewyrchu dalgylch Ysgol Bro Siôn Cwilt yn unig.

Bro Teifi

Eto, roedd rhai'n ffafrio cyfyngu'r ardal i Landysul a Phont-tyweli yn unig. Fodd bynnag, roedd mwyafrif clir o blaid cynnwys ardal helaethach a fyddai'n ymestyn o gyrion Llanllwni drwy Lanfihangel ar Arth i Bencader ac yna i lawr trwy Rhos Llangeler a Bryn Iwan i Gastellnewydd Emlyn a Chenarth. I'r gogledd o'r Teifi byddai'r ardal yn cynnwys pentrefi ochr gogleddol y dyffryn hyd at Horeb ac ymlaen i Gapel Dewi a Phont-siân. Byddai eraill hefyd yn cynnwys ardal Troed-yr-aur hyd at Ffostrasol i'r gogledd.

Mae'r ardal a ddisgrifir yn cynnwys ardal papur bro Y Garthen a rhannau o ddalgylch deheuol Y Gambo. Soniwyd hefyd am ddalgylchoedd ysgolion Bro Teifi ac Ysgol Emlyn fel ardaloedd diffiniol. Cafwyd un sylw yn awgrymu y dylai'r ardal hefyd gynnwys Bro Siôn Cwilt er mwyn creu ardal ehangach ei chyrhaeddiad a helaethach o ran y tîm gwirfoddol.

Aberteifi

Yn yr un modd roedd rhai lleisiau yma eto o blaid cyfyngu'r ardal i dref Aberteifi a'r pentrefi cyffiniol megis Y Ferwig a Phen-parc. Roedd eraill yn gweld yr ardal berthnasol yn ehangach, gan ddilyn yr afon Teifi i Lechryd ac yn ôl i'r de drwy Gilgerran a Llandudoch – gyda rhai yn cynnwys Boncath, Blaen-ffos a Chrymych yn ddalgylch posibl hefyd. I'r gogledd roedd rhai yn awgrymu ymestyn hyd at Aber-porth a rhannau o gymdogaeth Troed-y-aur. Roedd eraill yn gweld rhwydweithiau lleol yn ymestyn ymhellach eto.

Cyffredinol

Cafwyd un sylw mai un gwefan Bro 360 oedd ei angen ar gyfer y bedair ardal gyfan, gan gynnwys Bro'r Preseli yn ychwanegol atynt.


Wrth bennu ardaloedd rhaid ystyried nifer o ffactorau allweddol yn ogystal â syniadau brodorion ynghylch hyd a lled eu hardaloedd. Mae'r boblogaeth yn ffactor. Mae canolfannau masnachol mewn ardal yn ffactor. Mae gan nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal arwyddocâd o ran denu gwirfoddolwyr, y potensial i ddenu hysbysebion a'r gallu i ddenu darllenwyr a defnyddwyr.

At ei gilydd, a derbyn bod rhai ardaloedd fel Ffostrasol ac Aber-porth ar gyrion mwy nag un ardal, awgrymir bod yr ardaloedd a awgrymir ar dudalen ? yn fan cychwyn pwrpasol. Diau y bydd pobl yn diffinio'r ardaloedd hyn eu hunain maes o law drwy eu hymwneud â'r wefan dros amser.

## Cynnwys

Holwyd y cyfranwyr ynghylch yr hyn a fyddai'n eu denu nhw'n bersonol at wefan leol Bro 360. Rhoddwyd nifer o ddewisiadau parod ynghyd â chyfle i ychwanegu syniadau. Mae'r atebion fel a ganlyn:

Q10 Beth fyddai'n eich denu i ddarllen Bro 360 lleol?




Mae'r agweddau 'eraill' yn cynnwys:

- Newyddion 'caled' a materion y dydd mewn cyd-destun lleol.
- Llwyfan i gynghorwyr lleol – sir a chymuned.
- Sut i ymuno â chlybiau a chymdeithasau lleol.
- Hysbysebion preifat neu deuluol (*classifieds a personal ads*).
- Teithiau cerdded lleol.
- Cynghorion coginio a garddio.
- Sylw i'r celfyddydau'n lleol.
- Proffiliau o unigolion lleol.
- Proffiliau o bobl sydd wedi llwyddo o adael eu bro.
- Agweddau ar ein treftadaeth lleol – enwau llefydd ac ati.
- Cynghorion Cymraeg mewn busnes.
- Fideos 'sut i wneud' fel a welir ar *Youtube*.

## Cyfranogi

Holwyd y cyfranwyr ynghylch eu bwriadau o ran cyfrannu i'r prosiect yn y dyfodol.


Roedd 74 o'r cyfranwyr (72% o'r 102 a atebodd y cwestiwn a 63% o'r sampl cyfan) yn nodi y bydden nhw'n barod i gyfrannu at sefydlu a chynnal gwefan Bro 360 lleol mewn rhyw ddull neu fodd – nid o bosibl fel ceffyl blaen.

Holwyd nhw ynghylch sut y bydden nhw'n barod i wneud hynny drwy gynnig rhestr o ddewisiadau parod. Roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

- Cyfrannu straeon newyddion lleol (36)

- Cyfrannu pwt byr am eich mudiad neu glwb (45)
- Tynnu a rhannu lluniau lleol (31)
- Creu fideos neu bodlediadau (14)
- Cyhoeddi blogiau byw o ddigwyddiadau (10)
- Rhannu gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol (43)
- Annog pobl eraill i gyfrannu straeon (45)
- Gwirio a golygu testun (21)
- Adnabod digwyddiadau ar gyfer y calendr (42)
- Arall (28)

Fe gyflëir yr atebion mewn modd graffig isod:




Roedd cyfle hefyd i ychwanegu syniadau eraill. Dyma grynodeb o'r ymateb ychwanegol a gafwyd:

- Helpu pobl ifanc i gyfrannu – gan gynnwys o fewn ysgolion lleol.
- Cynnal partneriaeth drwy'r fenter iaith.
- Cynnal partneriaeth drwy'r papur bro.
- Rhwydweithio gyda mudiadau a digwyddiadau lleol eraill.
- Cynorthwyo gyda'r TG.
- Cynorthwyo i edrych am noddwyr.
- Cyswllt gyda chlybiau chwaraeon yr ardal.
- Cyswllt gyda dysgwyr yr ardal.
- Sefydlu *singles club* lleol nad sy'n *sleazy* (!)
- Cyfrannu cornel ddiwinyddol.

Nododd 59 (61% o'r 96 a atebodd y cwestiwn, 51% o'r sampl cyfan) y bydden nhw'n barod i fod yn rhan o Grŵp Llywio Lleol ac roedd 84 (73%) o unigolion eisiau cael eu cadw yn y cylch gwybodaeth o ran datblygiadau pellach.


## Derbyn newyddion

Holwyd y cyfranwyr hefyd ynghylch sut oedden nhw'n derbyn eu newyddion yn gyfredol. Roedd yn gyfle i gymryd rhyw ddarlun sydyn o arferion cymdeithasol cyfredol yn y cyswllt hwn.

Roedd 71 o'r 95 a atebodd y cwestiwn (75%) yn darllen eu papur bro lleol – 55 yn darllen copi papur, 4 yn darllen copi ar-lein a 9 yn darllen ar y ddau fformat.

Holwyd ymhellach ynghylch pa lwyfannau a chyfryngau a ddefnyddir i dderbyn newyddion. Dyma'r canlyniadau:


Q19 Sut ydych chi'n derbyn eich newyddion yn gyffredinol?




Roedd 65% yn derbyn newyddion drwy ddilyn dolenni ar y cyfryngau cymdeithasol, e.e. *Facebook* ac *Instagram*. Mae hyn yn cadarnhau'r hyn a ddwedwyd wrthym wrth gyfweld unigolion ynghylch y modd y mae nifer yn cyrchu gwefannau Bro 360. Mae hyrwyddo Bro 360 ar y llwyfannau hyn, felly, yn allweddol.

O ran gwefannau newyddion roedd y patrwm defnydd cyffredinol fel a ganlyn:

Q20 Os ydych yn derbyn eich newyddion drwy wefannau, pa wefannau ydych chi'n eu defnyddio?




Mae'r patrymau defnydd uchod yn cadarnhau rhagdybiaeth sylfaenol Bro 360 mai cyfryngau newyddion digidol biau'r dyfodol. Er hynny, mae'n arwyddocaol bod y ganran sy'n darllen eu papur bro yn parhau'n gadarn ymysg cyfranogwyr yr ymarferiad hwn – 75% o'r rhai a atebodd y cwestiwn.

## Casgliadau

O'r gwaith maes uchod gallwn ddod at y casgliadau canlynol:

- Cafwyd croeso cyffredinol i'r syniad o sefydlu gwefan newyddion Cymraeg leol yn y bedair ardal yn ddiwahân.

- Mynegwyd peth pryderon – ynghylch argaeledd gwirfoddolwyr a pherthynas y prosiect â phapurau bro lleol – ond roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod angen y prosiect er mwyn sicrhau llwyfan Cymraeg digidol cyfoes a allai gynnig cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol bywiog a deinamig – yn enwedig yng nghyswllt y to iau.

- Roedd consensws bod y bedair ardal a gynigiwyd gan y prosiect yn gwneud synnwyr cymdeithasol. Diau y byddan nhw'n diffinio eu hunain maes o law o'u sefydlu.

- Roedd awydd hefyd i gydnabod hunaniaeth sirol a chydberthynas ardaloedd cyffiniol.

- O ran cynnwys, cafwyd amrywiaeth o gynigion ond roedd 'newyddion' lleol am bobl a chymdeithasau lleol yn denu fel elfen graidd. Nododd nifer hefyd eu hawydd i weld newyddiaduraeth mwy 'caled' oedd yn medru codi sylw at faterion y dydd yn lleol. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod newyddiadurwr yn rhan o dîm Ceredigion 360.

- Amlygwyd pwysigrwydd o fedru hyrwyddo Bro 360 ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol.

- Roedd yr ymateb o ran cyfranogaeth yn gadarnhaol gyda 63% o'r sampl cyfan yn nodi y bydden nhw'n barod i gyfrannu'n ymarferol at brosiect Bro 360 lleol a 51% o bawb a atebodd yr holiadur yn barod i fod yn rhan o Grŵp Llywio Lleol.

## 4.2 Holi busnesau lleol

Ail agwedd y gwaith maes oedd holi busnesau lleol ynghylch:

- priodoldeb ac addasrwydd y syniad o sefydlu gwefan 360 lleol i'w hardaloedd,
- eu parodrwydd i ystyried hysbysebu a/neu noddi gwefan leol a/neu wefannau 360 eraill,
- eu patrymau hysbysebu a noddi cyfredol, ynghyd â'u
- diddordeb mewn ymuno â chlwb busnes ar-lein fel rhan o becyn o wasanaethau a gynigir gan y prosiect.

Holwyd 35 o fusnesau ar draws yr ardal drwy gyfweliad wyneb-yn-wyneb yn ystod Rhagfyr 2021 a Ionawr 2022. Ceisiwyd cynnwys busnesau a oedd yn cynrychioli ystod o wahanol feysydd busnes. Er mwyn sicrhau atebion ystyrlon ac awdurdodedig, targedwyd busnesau lle roedd y perchnogion neu reolwyr allweddol yn bresennol ar y pryd er mwyn cael atebion dibynadwy.

Cynhaliwyd sgyrsiau wyneb-yn-wyneb byr (15 munud) gyda'r unigolion hyn a bwydwyd yr atebion i fframwaith holiadur electronig er mwyn medru eu dadansoddi fel corff o ddata.

O'u nodi yn ôl broydd unigol gwelir y patrwm canlynol:

- Aberaeron a Dyffryn Aeron (10),
- Bro Siôn Cwilt (6),[3]
- Bro Teifi – ardal Llandysul a Chastellnewydd Emlyn (10), ac
- ardal Aberteifi (9).

Hyderir bod y sampl yn ddigonol i gael blas cychwynnol ar y posibiliadau masnachol.

<u>Cefnogaeth i'r syniad</u>

Roedd pob un ond dau a holwyd (33 o'r 35) yn croesawu'r syniad o sefydlu gwefannau newyddion Cymraeg yn lleol.[4] Roedd un siop lyfrau Cymraeg yn ansicr ynghylch ychwanegu at gyfryngau cyfredol a chigydd lleol, er nad oedd yn gwrthwynebu, ddim yn gweld cyfle busnes amlwg iddyn nhw fel cwmni.

Roedd 30 o'r 35 (86%) yn debygol o ddefnyddio dalen newyddion y wefan i lunio stori (am ddim) ynghylch agwedd ar eu busnes. Byddai 10 ohonyn nhw angen ychydig o gymorth i wneud hynny o ran cyfieithu neu hyfforddiant neu gymorth technegol.

---

[3] Nid oes canolfan drefol yn yr ardal hon. Dibynnir yn drwm ar dwristiaeth ac roedd y rhan fwyaf o'r busnesau yn Llangrannog a Cheinewydd wedi cau ym mis Ionawr neu heb eu perchnogion yn bresennol.
[4] Dylid gochel rhag effaith Hawthorne yma, sef tuedd pobl i gynnig yr ateb y teimlant sy'n ddisgwyliedig gan yr ymholydd.

Gosod hysbysebion

Fel ymarferiad i brofi'r farchnad, dangoswyd enghraifft o ddalen 'Y Farchnad' Bro 360 i'r unigolion gan holi a fydden nhw'n debygol o osod hysbyseb ar ddalen leol o'r fath.

> *"Byddech chi'n barod i osod hysbyseb ar eich gwefan Bro360 lleol – (e.e. MPU 300x250 picsel = 3" x 2.5" ar sgrin monitor arferol)?*

Atebodd 29 o'r 35 (83%) yn gadarnhaol i'r posibilrwydd.

Holwyd hwy ymhellach a fydden nhw â diddordeb mewn gosod hysbyseb debyg ar wefannau lleol ardaloedd cyfagos. Atebodd 21 o'r 35 (60%) yn gadarnhaol i'r posibiliad hynny. O drafod ymhellach amlygwyd y byddai croeso eang i'r posibilrwydd o fedru hysbysebu ar raddfa Ceredigion gyfan.

Er yr ymateb cadarnhaol, dim ond 12 chwmni a nododd eu bod yn hysbysebu'n lleol yn barod:

- Papur bro (7)
- Rhaglenni sioeau a digwyddiadau lleol (6)
- Papurau hysbysebu am-ddim (1)
- Papur sirol (Saesneg) (5)

O'r rhai nad oedd yn hysbysebu'n lleol nododd nifer eu bod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo eu hunain – *Facebook* ac *Instagram* yn bennaf. Ymddengys bod y cyfle i hysbysebu ar fformat digidol yn ddeniadol iddyn nhw.

Nododd un busnes manwerthu eu bod yn medru prynu hysbyseb achlysurol ar Facebook am £10 yr wythnos a oedd yn rhoi hwb iddyn nhw yn lleol. Gwelwyd hynny yn werth am arian.

Roedd un busnes cynhyrchu bwyd wedi bod yn talu £33 y mis i gwmni *Wales & the Borders* i gael eu cynnwys ar eu safwe marchnad bwydydd arbenigol – ond roedden nhw am beidio gwneud hynny oherwydd amheuon am gost-effeithiolrwydd y llwyfan.

Roedd cwmnïau mwy (e.e. cwmnïau gwerthu ceir) yn dueddol o hysbysebu o fewn y diwydiant ac ar raddfa llawer ehangach na'r fro leol. Serch hynny, bydden nhw'n agored i drafod cynllun nawdd o weld y manylion llawn.

Roedd nifer dda o'r cwmnïau'n adrodd mai lledu eu henw da ar lafar ar sail ansawdd da eu gwasanaeth oedd y marchnata arferol a wnaed ganddynt. Nododd nifer eu bod yn hysbysebu yn eu papur bro o ran dangos cefnogaeth gymunedol yn hytrach nag fel arf busnes.

Roedd 10 o'r 35 (29%) yn nodi y bydden nhw angen cymorth i osod hysbyseb ar Bro 360 – naill ai o ran cyfieithu neu gymorth TG.

Talu am hysbysebion

O ystyried fformat dalen 'Y Farchnad' Bro 360 a'r posibilrwydd o osod dolen i wefan neu gyfrwng cymdeithasol yno, holwyd y busnesau ynghylch maint y gyllideb fydden nhw'n ystyried ei neilltuo ar gyfer hysbysebu ar y llwyfan hwnnw.

Roedd y mwyafrif o'r busnesau yn gyndyn i gynnig cyllideb gadarn heb weld y manylion llawn – gan gynnwys ystadegau ynghylch traffig a chyrhaeddiad. O'r naw a gynigodd sylwadau, roedd eu hatebion yn amrywio o rhwng £5 i £30 y mis.

Nododd un perchennog y byddai'r model yn fwy cynhyrchiol i fusnesau ar-lein (e.e. crefftwyr ac artistiaid lleol) a allai fanteisio o bresenoldeb ar-lein mwy na siopau a gwasanaethau lleol.

Nodwyd hefyd y byddai parodrwydd i hysbysebu yn medru dibynnu ar y tymor o'r flwyddyn a phrysurdeb cymharol y busnes.

Noddi dalennau Bro 360

Holwyd hefyd ynghylch y posibilrwydd o dalu am hysbyseb mwy sylweddol, e.e. noddi dalen neu osod hysbyseb pennawd ar y wefan leol.

> *"Heb ymrwymo eich hun, byddech chi'n barod i noddi eich gwefan Bro360 lleol am gyfnod hwy, e.e. 6 neu 12 mis? (e.e. trwy osod baner 'leaderboard' 728x90 picsel = 7" x 1" ar sgrin monitor arferol)?"*

Nododd 13 (41%) y bydden nhw'n barod i ystyried gwneud hynny, gyda'r fantais o gael sylw ehangach na'r ardal leol yn unig – nododd nifer awydd i hysbysebu ar raddfa Ceredigion ac ambell un arall ar raddfa genedlaethol.

Dim ond 5 a gynigodd gyllideb ar gyfer hynny, sef rhwng £20 y mis a £50 y mis. Roedd eraill yn nodi'r angen i weld manylion y cynnig cyn mentro cyllideb gadarn.

Ni holwyd busnesau mawrion yr ardal fel rhan o'r arolwg hwn ond ceir nifer o fusnesau llwyddiannus iawn yn yr ardal – yn y maes twristiaeth, gwneuthurwyr dillad, bio-technoleg, adeiladu, gwasanaethau amaethydiaeth a sawl maes arall. Byddai denu nawdd o'r cyfeiriadau hynny yn bosibl o ddatblygu strategaeth bwrpasol.

Prisiau hysbysebion cymharol

Gwnaed ychydig o ymchwil pen-desg ynghylch hysbysebion lleol. Nodir isod rhai prisiau cymharol o hysbysebu yn y *Cambrian News* a'r *The Monthly Advertiser*.

Byddai hysbyseb sy'n cyfateb o ran maint i hysbysebion safonol Y Farchnad Bro 360 yn y *Cambrian News* (5cm x 3 colofn) yn costio £85 yr wythnos (+TAW). Byddai 'baner' nawdd cyfatebol (10cm x 2 golofn) yn costio £170 yr wythnos (+TAW). Mae'r cyfraddau hysbysebu'n fwy yng nghysywllt swyddi (£300+TAW) neu hysbysiadau cyhoeddus (£350+TAW). Enghreifftiol yw'r symiau hyn ac mae'r cyfraddau'n medru bod yn hyblyg a chynigir gostyngiadau ar hysbysebion rheolaidd.

Mae gwerthiant cyfredol y *Cambrian News* tua 10,000 copi mewn 5 rhifyn rhanbarthol. Mae dros 20,000 yn 'hoffi' eu dalen *Facebook*. Mae rhwng 6,000 - 7,000 yn prynu rhifynnau Ceredigion a Maldwyn, gan roi amcan o rhyw 20,000 o ddarllenwyr yng Ngheredigion.[5]

Mae'r *The Monthly Advertiser* – papur hysbysebion A5 – yn honni ei fod yn cael ei ddosbarthu i dros 41,000 o gartrefi yng Ngheredigion yn fisol. Mae'r nifer sy'n ei ddarllen yn anhysbys. Byddai

[5] Ffynhonnell: adran hysbysebu'r Cambrian News (Rhagfyr 2021).

gofod cyfatebol i hysbysebion safonol yn ‘Y Farchnad’ Bro 360 (7cm x 5cm) yn £89 (+TAW) am un mis neu £73 (+TAW) y mis am gyfnod o 3 mis.

O’r papurau bro dim ond Y Gambo sy’n cyhoeddi eu cyfraddau hysbysebu yn papur. Byddai gosod hysbyseb cyffelyb yn Y Gambo yn £5 y mis neu £45 y flwyddyn. Mae gan Y Gambo werthiant o 750 ac ar sail hynny tua 2,250 o ddarllenwyr. Yn rhifynnau Tachwedd Y Gambo, Y Garthen a Llais Aeron gosodwyd 25, 8 a 6 hysbyseb.

Ceir mwy o drafodaeth ar gyrhaeddiad Bro 360 ac incwm posibl o hysbysebion isod.

Clwb Busnes Ar-lein

Cynigiwyd y syniad i’r busnesau y gallai aelodaeth o glwb busnes lleol ar-lein fod yn rhan o’r pecyn hysbysebu. Byddai clwb o‘r fath yn cynnig cyfle i rannu profiadau a derbyn arweiniad a hyfforddiant ar agweddau o gynnal e-fusnes, marchnata ar We. At hynny, gallai gynnig y gwasanaethau a’r cyfleoedd canlynol:

- Hysbysebion ar wefannau bro lleol
- Hysbysebion ar wefannau bro rhanbarthol
- Cyfle i hysbysebu ar golwg360.cymru ac yng nghylchgrawn Golwg am bris gostyngol
- Gweithdai hyfforddiant sgiliau digidol
- Sesiynau rhwydweithio a rhannu syniadau gyda busnesau eraill
- Presenoldeb ar gyfeirlyfr busnes lleol a chenedlaethol
- Cyfle i hyrwyddo cynigion arbennig ar ffurf cryno hysbyseb (*promoted* posts)
- Gallu i gyhoeddi newyddion am eich cwmni mewn adran fusnes leol a chenedlaethol

Mynegodd 19 busnes (58%) ddiddordeb yn y syniad o glwb busnes ar-lein – ond ni welwyd brwdfrydedd. Daeth yr ymatebion cadarnhaol yma, gan mwyaf, gan unigolion o’r genhedlaeth iau a oedd yn fwy cyfforddus â TG. Roedd 10 yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i rwydweithio â busnesau eraill, gyda7 yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd hyfforddi, lle ar gyfeirlyfr a chyfle i hysbysebu’n ehangach.

**Casgliadau**

O holi’r busnesau lleol gallwn gynnig y casgliadau canlynol:

- Bod croeso cyffredinol ymhlith busnesau’r ardal i‘r syniad o sefydlu gwefannau newyddion lleol.

- Bod busnesau lleol yn gweld y cyfle i dynnu sylw i’w hunain ar ddalennau newyddion (am ddim) y wefan yn atyniadol.

- Bod angen targedu busnesau ar-lein lleol yn ogystal â busnesau manwerthu, lletygarwch a gwasanaeth ar gyfer denu hysbysebion.

- Bod croeso cyffredinol i’r cyfle i hysbysebu ar lwyfan digidol lleol – ond y byddai angen cymorth ieithyddol neu dechnegol ar nifer arwyddocaol o fusnesau i wneud hynny (25-50%).

- Ar sail yr atebion a gafwyd, byddai’r pwynt pris cychwynnol ar gyfer gosod hysbyseb sylfaenol ar wefan leol Bro 360, gyda dolen i lwyfan digidol y cwmni, tua £25 (+TAW) y mis - £250 (+TAW) y flwyddyn. Gallai fod yn rhatach heb y ddolen gyfeiriol - £20 (+TAW) y mis neu £200 (+TAW) y flwyddyn, dyweder.

- Bod croeso i'r posibilrwydd o hysbysebu y tu allan i'r fro leol – yn enwedig ar lefel Ceredigion gyfan – er na gynigiwyd arweiniad ynghylch pwynt pris y nawdd hwnnw.

- Bod marchnad yn lleol ar gyfer denu nawdd sylweddol o ddatblygu strategaeth bwrpasol.

- Bod angen i Bro 360 ddatblygu cynnig hysbysebu clir a syml sy'n cynnig gwerth am arian i hysbysebwyr a noddwyr. Gallai'r pecyn hysbysebu a nawdd weithredu ar ddwy (neu dair) lefel – y lleol, Ceredigion 360 (a Golwg 360) – yn dibynnu ar ddalgylch busnes y cwmni.

- Byddai angen i'r prosiect hyrwyddo defnydd o'r wefan yn sylweddol, gan fonitro traffig drwy'r gwefannau lleol a'i gynyddu'n gyson er mwyn profi gwerth am arian i hysbysebwyr.

- Bod angen ystyried cynnwys hysbysebion swyddi a hysbysiadau cyhoeddus yn rhan o strategaeth hysbysebion Bro 360.

- Bod angen ystyried yn ofalus cyn cyflwyno cynllun clwb busnes ar-lein. Byddai sefydlu a chynnal clwb o'r fath yn golygu cryn fuddsoddiad mewn amser ac ymdrech staff. O'r herwydd, mae'n bosib na fyddai'n gost-effeithiol ac na fyddai'n dwyn gwerth ychwanegol i'r prosiect. Awgrymir y dylid adolygu'r syniad o glwb busnes ym mlwyddyn 2 y cynllun busnes. Awgrymir mai prosiect i'w ariannu gan nawdd cyhoeddus fyddai clwb o'r fath nid menter fasnachol.

- Bod angen i'r prosiect neilltuo aelod penodol o staff o fewn Ceredigion i werthu hysbysebion a chynnal cyswllt â busnesau – ar y cyd â thimau lleol o wirfoddolwyr â diddordeb.

## 4.3 Trafodaethau'r gweithdai syniadau

Cynhaliwyd 4 sesiwn rhannu syniadau drwy gyfrwng Zoom rhwng 10-13 Ionawr 2022. Cynullwyd y nifer canlynol o unigolion i'r gweithdai rhannu syniadau:

- Aberaeron a Dyffryn Aeron (17),
- Bro Siôn Cwilt (7),
- Bro Teifi – ardal Llandysul a Chastellnewydd Emlyn (6), ac
- ardal Aberteifi (5).

Cafwyd cyflwyniad ar brosiect Golwg 360 gan y Swyddog Prosiect. Cyflwynodd un o dîm cwmni IAITH ganfyddiadau dechreuol yr ymchwil hwn. Arweiniwyd trafodaeth ar y posibiliadau, gan ateb cwestiynau a godwyd.

Ni godwyd unrhyw fater nad sydd wedi ei nodi uchod eisoes. Roedd y cyfranogwyr yn gwbl unfrydol yn eu barn bod y syniad yn un da a bod angen bwrw ymlaen i sefydlu'r gwefannau – yn y bedair ardal – ar y cyfle cyntaf.

Mae cofnod llawn o'r cyfarfodydd a recordiad ohonyn nhw yn nwylo'r client.

## 4.4 Materion cyd-destunol

Cyrhaeddiad a chynaliadwyedd

Wrth ystyried ffyrdd o ddatblygu'r prosiect i'r 4 ardal newydd a chynnal y 3 ardal gyfredol, rhaid ceisio bwrw amcan ar gyrhaeddiad a chynaliadwyedd ariannol unrhyw gynllun.

Er y byddai angen grantiau gan gyrff cyhoeddus neu sefydliadau elusennol i gynnal unrhyw gynllun busnes ar gyfer y cynllun, yn sicr yn y tymor byr, mae'n debygol mai incwm o werthu hysbysebion a nawdd fyddai prif gynhaliaeth y prosiect yn y tymor canolig. Mae hynny'n dibynnu ar fedru perswadio busnesau lleol o werth y prosiect iddyn nhw o ran naill ai denu busnes ychwanegol a/neu gynnal neu ddatblygu eu proffil cyhoeddus yn lleol, yn sirol neu'n genedlaethol.

Byddai'n dda, felly, cael rhyw ddealltwriaeth o gyrhaeddiad posibl y prosiect. At ddibenion yr ymarferiad hwn canolbwyntiwn ar geisio dyfalu cyrhaeddiad potensial y prosiect ar raddfa sirol – o fabwysiadu'r brand Ceredigion 360. Wedi dweud hynny, mae amcanu cyrhaeddiad potensial y prosiect yn broblematig. Dyma beth a wyddys eisoes er mwyn ceisio dod i amcan synhwyrol.

- Mae debygol bod tua 40,000 o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion a'r ardaloedd cyffiniol ar lannau'r Teifi. Byddai cyrraedd 10% o'r rheini yn golygu cynulleidfa o 4,000. Byddai cyrraedd 15% ohonyn nhw yn golygu cynulleidfa o 6,000.

- Mae'r Cambrian News yn gwerthu tua 6,500 o gopïau yng Ngheredigion ac y cyrraedd rhyw 20,000 o ddarllenwyr. Dyna'r nifer o unigolion sy'n eu dilyn ar *Facebook* hefyd. Gellid dadlau bod tua 10,000 o'r darllenwyr tebygol hynny yn siaradwyr Cymraeg.

- Mae niferoedd gwerthiant papurau bro'r sir fel a ganlyn:

**Tabl 3: gwerthiant papurau bro Ceredigion**[6]

| Papur Bro | Gwerthiant | Darllenwyr tebygol |
|---|---|---|
| Papur Pawb | 350 | 1,050 |
| Y Tincer | 800 | 2,400 |
| Yr Angor | 325 | 975 |
| Y Barcud | 500 | 1,500 |
| Clonc | 700 | 2,100 |
| Llais Aeron | 400 | 1,200 |
| Y Gambo | 750 | 2,250 |
| Y Garthen | 400 | 1,200 |
| Y Dwrgi | ? | ? |
| **Cyfanswm** | **4,225+** | **12,675+** |

Mae'n ddiddorol nodi bod y nifer tebygol o ddarllenwyr papurau bro yng Ngheredigion yn cymharu'n agos â'r nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n darllen y *Cambrian News* – tua'r 10,000 o unigolion – sef tua chwarter siaradwyr Cymraeg y sir estynedig. (Nid yw hynny'n golygu mai'r un 10,000 ydyn nhw, wrth gwrs).

O ystyried patrymau darllen a defnydd ar y We yn gyfredol, a fyddai un o bob pedwar o siaradwyr Cymraeg y sir yn debygol o ddefnyddio gwefan Ceredigion 360? Yntau a yw cyrhaeddiad potensial o 10-15% yn fwy realistig?

[6] Ffynhonnell: Mentrau Iaith Cymru.

Mae mesur cyrhaeddiad cyfredol gwefannau Bro 360 yng Ngheredigion yn anodd. Mae'r wybodaeth sydd ar glawr ynghylch traffig i'r gwefannau unigol fel a ganlyn:

**Tabl 4: Nifer ymwelwyr â'r wefan mewn mis, ar gyfartaledd, yn 2021.**

| | | |
|---|---|---|
| Clonc 360: | 7,498 | 14,587 |
| Caron 360 | 2,691 | |
| Bro Aber 360 | 4,398 | |
| Golwg 360 | 72,379 | |

**Tabl 5: Nifer ymweliadau unigryw i ddalenni mewn mis, ar gyfartaledd, yn 2021.**

| | | |
|---|---|---|
| Clonc 360: | 8,819 | 18,586 |
| Caron 360 | 3,613 | |
| Bro Aber 360 | 6,154 | |
| Golwg 360 | 121,227 | |

(Noder: nid yw'r tablau uchod yn cyfleu nifer ymwelwyr unigryw. Mae'n debygol bod unigolion yn cael eu cyfrif bob tro y down at y wefan. Felly hefyd yr ymweliadau i ddalenni).

At hynny, gwyddys bod 1,600 yn hoffi dalen *Facebook* Clonc 360, dros 1,000 yn hoffi dalen *Facebook* Bro Aber 360 a 635 yn dilyn dalen *Facebook* Caron 360 yn gyfredol (Rhagfyr 2021). Mae'r ystadegau hynny wedi parhau i dyfu'n raddol gydol y cyfnod diweddar. O ystyried hynny gallai nifer dilynwyr gwefannau Ceredigion 360 gyrraedd rhwng 7,000-10,000 o fewn amserlen y cynllun ymestyn.

Cam gwag, fyddai rhagdybio bod dilynwyr y llwyfannau digidol yma yn gyfyngedig i Geredigion, wrth gwrs. Mae'r cyfryngau digidol yn torri ar ffiniau daearyddol a rhaid cydnabod bod potensial i ddenu darllenwyr/ymwelwyr a chwsmeriaid o du allan y fro neu'r sir yn ogystal.

Fodd bynnag, wrth gynllunio, byddai'n rhesymol disgwyl i Ceredigion 360 anelu at gyrraedd rhyw 10,000 o ymwelwyr a dilynwyr dros gyfnod sefydlu ac ymestyn y cynllun. Byddai hynny'n cyfateb i ddarllenwyr tebygol y *Cambrian News* a'r papurau bro fel ei gilydd. Byddai hynny'n cynnig rheswm cadarn iawn i fusnesau a chyrff cyhoeddus ddefnyddio'r llwyfan fel cyfrwng i hysbysebu, gosod hysbysiadau cyhoeddus a chynnig grantiau a nawdd ariannol i'r prosiect. Mae'n allweddol, felly, bod y prosiect yn sefydlu dull o fedru monitro cyrhaeddiad y cynllun mewn termau defnyddwyr unigryw.

<u>Perthynas â phapurau bro</u>

Un agwedd cyd-destunol arwyddocaol yw presenoldeb papurau bro Ceredigion. Mae'r papurau bro wedi bod yn gonglfaen i'r diwylliant Cymraeg ers eu datblygu yn 1970au a'r 1980au. Maen nhw wedi bod yn ddull effeithiol iawn o glymu cymdogaethau Cymraeg ynghyd a chynnig deunydd darllen deniadol a hygyrch i gyfran helaeth o siaradwyr Cymraeg.

Ceir naw papur bro yng Ngheredigion – Papur Pawb (gogledd Ceredigion), Y Tincer (ardal Genau'r Glyn), Yr Angor (Aberystwyth), Y Barcud (Tregaron), Llais Aeron (Dyffryn Aeron), Clonc (Llanbed), Y Gambo (de Ceredigion), Y Garthen (Bro Teifi) a'r Dwrgi (Aberteifi).

Mae'r papurau bro – fel y wasg brintiedig yn gyffredinol – yn wynebu heriau sylweddol yn gyfredol, wrth i'r wasg ddigidol ddod i'w grym. Yng nghwrs y ymchwil hwn fe siaradwyd â nifer o bobl sy'n ymwneud â phapurau bro a hynny mewn sawl cyswllt. Roedd canran uchel o'r rhai a holwyd yn

ddarllenwyr papurau bro. Holwyd golygydd Llais Aeron, Cadeirydd a rhai o aelodau pwyllgor Y Garthen, unigolion sy'n ymwneud â Y Gambo fel golygyddion y mis ac aelodau pwyllgor ynghyd â rhai o aelodau pwyllgor Y Dwrgi. Mynegwyd pryderon am ddyfodol y papurau bro gan bawb – o ran gweld gwerthiant yn disgyn, gweld cyfartaledd oedran darllenwyr a chyfranwyr yn heneiddio, yr her a wynebir gan y wasg ddigidol a'r heriau sydd wedi codi yn sgil torri ar batrymau cymdeithasol oherwydd COVID-19.

Roedd croeso cyffredinol i'r prosiect o du'r unigolion a oedd yn ymhél yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â phapurau bro yr ardal darged. Mynegwyd pryder gan nifer o aelodau pwyllgor ac unigolion â dyletswyddau golygyddol ynghylch eu hanallu hwy yn bersonol i ddygymod â thechnoleg gwybodaeth a'r diwylliant digidol. Ond ar yr un pryd roedd awydd hefyd i weld y papurau bro yn dygymod â'r sefyllfa ac yn goroesi ar ryw ffurf neu'i gilydd.

Croesawyd y ffaith bod Bro 360 yn lletya copïau digidol o 37 o bapurau bro ar eu gwefan. Roedd croeso cynnes hefyd i'r bartneriaeth adeiladol a symbiotig a ddatblygwyd rhwng papur bro Clonc a Clonc 360, gyda nifer yn nodi y caren nhw weld perthynas debyg yn datblygu rhwng y prosiect a phapurau bro yn eu hardaloedd hwy.

Mae ffiniau Llais Aeron a phapur bro Y Garthen yn gymharus iawn ag ardaloedd targed Bro 360 yn Nyffryn Aeron a Bro Teifi ac fe fynegwyd awydd cadarn i gydweithio â'r prosiect gan gynrychiolwyr y ddau bapur bro yn y mannau hynny.

Deallir bod ardal darged Aberteifi ychydig yn ehangach na thref Aberteifi yn unig, sef priod ffocws Y Dwrgi. Mae papur bro Y Gambo yn gwasanaethu'r ardal i'r gogledd o Aberteifi yn ogystal â Bro Siôn Cwilt. Er nad oes cyswllt ffurfiol wedi ei wneud â chynrychiolwyr y ddau bapur bro yma, cafwyd arwyddion cadarnhaol gan unigolion syn gysylltiedig â nhw a bydd angen i'r prosiect gynnal trafodaeth adeiladol â'r papurau bro hyn a phapurau bro eraill o gamu ymlaen.

Mae potensial i'r trafodaethau hynny fod ynghylch trefniadaeth gyffredin, rhannu cynnwys a chreu pecynnau codi incwm ar y cyd.

# 5.0 Casgliadau

O'r gwaith maes uchod gallwn ddod at y casgliadau canlynol:

- Cafwyd croeso cyffredinol i'r syniad o sefydlu gwefan newyddion Cymraeg leol yn y bedair ardal yn ddiwahân.

- Mynegwyd peth pryderon – ynghylch argaeledd gwirfoddolwyr a pherthynas y prosiect â phapurau bro lleol – ond roedd cydnabyddiaeth gyffredinol bod angen y prosiect er mwyn sicrhau llwyfan Cymraeg digidol cyfoes a allai gynnig cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng cymdeithasol bywiog a deinamig – yn enwedig yng nghyswllt y to iau.

- Roedd consensws bod y bedair ardal a gynigiwyd gan y prosiect yn gwneud synnwyr cymdeithasol. Diau y byddan nhw'n diffinio eu hunain maes o law. Roedd awydd hefyd i gydnabod hunaniaeth sirol a chydberthynas ardaloedd cyffiniol.

- O ran cynnwys, cafwyd amrywiaeth o gynigion ond roedd 'newyddion' lleol am bobl a chymdeithasau lleol yn denu fel elfen graidd. Nododd nifer hefyd eu hawydd i weld newyddiaduraeth mwy 'caled' oedd yn medru codi sylw at faterion y dydd yn lleol. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd sicrhau bod newyddiadurwr yn rhan o dîm Ceredigion 360.

- Amlygwyd pwysigrwydd o hyrwyddo Bro 360 ar lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio traffig at y wefan.

- Roedd yr ymateb o ran cyfranogaeth yn gadarnhaol gyda 64% yn nodi y bydden nhw'n barod i gyfrannu'n ymarferol at brosiect Bro 360 lleol a 52% o'r rhai a holwyd yn barod i fod yn rhan o Grŵp Llywio Lleol.

- Roedd cytundeb cyffredinol bod angen i'r prosiect ddatblygu perthynas adeiladol gyda phapurau bro yn yr ardaloedd targed.

O holi'r busnesau lleol gallwn gynnig y casgliadau canlynol:

- Bod croeso cyffredinol ymhlith busnesau'r ardal i'r syniad o sefydlu gwefannau newyddion lleol.

- Bod busnesau lleol yn gweld y cyfle i dynnu sylw i'w hunain ar ddalennau newyddion (am ddim) y wefan yn atyniadol.

- Bod croeso cyffredinol i'r cyfle i hysbysebu ar lwyfan digidol lleol – ond y byddai angen cymorth ieithyddol neu dechnegol ar rhai busnesau i wneud hynny.

- Ar sail yr atebion a gafwyd, byddai'r pwynt pris cychwynnol ar gyfer gosod hysbyseb sylfaenol ar wefan leol Bro 360, gyda dolen i lwyfan digidol y cwmni, tua £25 (+TAW) y mis. Gallai fod yn rhatach heb y ddolen gyfeiriol.

- Bod croeso i'r posibiliadau i hysbysebu y tu allan i'r fro leol – yn enwedig ar lefel Ceredigion gyfan – er na chynigiwyd arweiniad ynghylch pwynt pris y nawdd hwnnw.

- Bod angen i Bro 360 ddatblygu cynnig hysbysebu clir a syml sy'n cynnig gwerth am arian i hysbysebwyr a noddwyr. Gallai'r pecyn hysbysebu a nawdd weithredu ar ddwy (neu dair) lefel – y lleol, Ceredigion 360 (a Golwg 360) – yn dibynnu ar gyrhaeddiad a dalgylch y cwmni.

- Y byddai angen hyrwyddo defnydd o'r wefan yn sylweddol, gan fonitro traffig drwy'r gwefannau lleol a'i gynyddu'n gyson er mwyn profi gwerth am arian i hysbysebwyr.

- Bod angen ystyried cynnwys hysbysebion swyddi a hysbysiadau cyhoeddus yn rhan o strategaeth hysbysebion Bro 360.

- Bod angen ystyried yn ofalus cyn cyflwyno cynllun clwb busnes ar-lein. Byddai sefydlu a chynnal clwb o'r fath yn golygu cryn fuddsoddiad mewn amser ac ymdrech staff. O'r herwydd, mae'n bosib na fyddai'n gost-effeithiol ac na fyddai'n dwyn gwerth ychwanegol i'r prosiect. Awgrymir y dylid adolygu'r syniad o glwb busnes ym mlwyddyn 2 y cynllun busnes.

- Bod angen i'r prosiect neilltuo aelod o staff penodol o fewn Ceredigion i werthu hysbysebion a chynnal cyswllt â busnesau – ar y cyd â thimau lleol o wirfoddolwyr â diddordeb.

O ganlyniad i'r sesiynau rhannu syniadau a drefnwyd rhwng 10-13 Ionawr gallwn gasglu bod cefnogaeth gadarn i'r bwriad o sefydlu gwefannau Bro360 yn y bedair ardal fel ei gilydd a chriwiau brwd o wirfoddolwyr yn barod i ysgwyddo'r gwaith.

# 6.0 Argymhellion

- Bod cynllun Bro 360 yn parhau i gynnal a chefnogi y 3 gwefan newyddion lleol sydd eisoes wedi eu sefydlu yng Ngheredigion – Clonc 360, Caron 360 a Bro Aber 360.

- Bod cynllun Bro 360 yn parhau gyda'r bwriad i sefydlu 4 gwefan newyddion lleol ychwanegol yng Ngheredigion – Dyffryn Aeron, Bro Siôn Cwilt, Bro Teifi ac Aberteifi – dros gyfnod o 2-3 blynedd.

- Bod ystyriaeth yn cael ei roi i sefydlu brand penodol – Ceredigion 360 – ar gyfer clymu'r 7 gwefan lleol ynghyd o ran newyddion, digwyddiadau, hysbysebion a nawdd.

- Lle cynt y bu'r prosiect yn cael ei gynnal gan nawdd cyhoeddus, mae angen i'r prosiect fabwysiadu model masnachol os am barhau â'r hyn a datblygwyd hyd yma ac ymestyn y prosiect i ardaloedd newydd.

- Bod cynllun busnes yn cael ei ddatblygu sy'n cynnwys cydlynydd sirol ynghyd ag ysgogydd lleol, newyddiadurwr(aig) a gwerthwr(aig) hysbysebion a nawdd.

- Bod pecyn hysbysebu a nawdd clir a syml yn cael ei baratoi sy'n cynnig cyfleoedd i fusnesau lleol ar ddwy lefel – y lleol a'r sirol, sef Ceredigion 360 – yn ogystal â'r cyfleoedd cenedlaethol a gynigir eisoes gan Golwg 360.

- Bod angen ystyried denu incwm o hysbysiadau cyhoeddus gan gyrff cyhoeddus a hysbysebion swyddi.

- Bod angen i'r prosiect ddatblygu partneriaethau adeiladol gyda'r papurau bro lleol yn ardaloedd targed Ceredigion fel agwedd ganolog o'r dull gwaith.

- Bod angen datblygu partneriaeth gyda'r Cynghorau Sir a mentrau iaith perthnasol ynghyd â chyrff datblygu economaidd a datblygu cymunedol lleol.

- Bod y syniad o greu clwb busnes ar-lein yn cael ei 'barcio' am gyfnod a'i adolygu yn ail mlynedd y cynllun o ran ei werth masnachol.

- Bod y model y gynigir yn yr adroddiad hwn yn cael ei efelychu yn Arfon a/neu Gwynedd er mwyn cynnal Cydlynydd llawn amser a phrosiect Bro 360 cyfannol.

- Wrth flaengynllunio, bod y prosiect yn ystyried sut i ariannu ymestyniadau pellach i Fro'r Preseli, Bro Myrddin a Bro Ddyfi drwy arian had cyhoeddus ac incwm masnachol.

Isod, cynigwn amlinelliad o gynllun busnes a chynllun gweithredu er mwyn gwireddu'r argymhellion uchod.

# 7.0 Model o Gynllun Busnes

Mae'r achos busnes dros brosiect Ceredigion 360, sef yr angen cymdeithasol ac economaidd amdano o safbwynt polisi cyhoeddus, wedi ei amlinellu yn Adran 1.0. Mae'r rhesymau hynny hefyd yn hysbys o ddarllen dogfennaeth graidd y prosiect. Mae'r galw lleol amdano wedi ei amlinellu yng nghanfyddiadau Adran 4.0 uchod. Canolbwyntiwn yma, felly, ar geisio amlinellu model o gynllun busnes posibl a allai weld Ceredigion 360 yn cael ei sefydlu fel prosiect a fyddai'n hunangynhaliol yn ariannol o fewn cyfnod o dair blynedd.

Mae'r model yn rhagdybio y byddai'r tair ardal gyfredol yn parhau yn weithredol ac y byddai'r prosiect yn llwyddo i sefydlu ei hun mewn dwy ardal arall yn ystod y flwyddyn gyntaf, gan ychwanegu ardal arall ym mlwyddyn 2 a seithfed ardal naill ai yn ail hanner blwyddyn 2 neu ym mlwyddyn 3, fel bo'n ymarferol. Tybir mai blwyddyn 3 fyddai hynny er mwyn dibenion y model.

Mae'r model hefyd yn caniatáu i'r cynllun gael ei ehangu ym mlynyddoedd 2 a 3 i gwmpasu ardaloedd cyffiniol eraill, e.e. Bro'r Preseli, Bro Myrddin neu Bro Ddyfi – er nad yw cynllunio'n ariannol ar gyfer hynny yn rhan o'n bwriad yma.

## Staffio a chostau

Ym mlwyddyn 1 mae'r strwythur staffio a awgrymir ar gyfer Ceredigion 360 yn cynnwys:

- cydlynydd (50%),
- newyddiadurwr(aig) (100%),
- ysgogydd lleol (100%),
- gwerthwr hysbysebion a nawdd (100%), ynghyd â
- chefnogaeth dechnolegol llawrydd.

At hynny, mae'r gyllideb yn cydnabod yr angen am rywfaint o arian prosiect, cyllideb ar gyfer costau gwirfoddolwyr, cyllideb ar gyfer costau teithio a chronfa sy'n caniatáu prynu adnoddau technegol. Mae'r gyllideb hefyd yn cydnabod yr angen i gynnwys gorbenion y cwmni ac amser staff Golwg Cyf. yn rheoli a chefnogi'r prosiect.

Nodir 50% o amser Cydlynydd yn y cynllun ar y rhagdybiaeth y byddai cynllun cyfatebol yn cael ei ddatblygu i gynnal hanner arall y swydd yn Arfon a Gwynedd.

Ym mlwyddyn 2 y cynllun mae amser yr ysgogydd lleol a'r gwerthwr hysbysebion a nawdd yn syrthio i 75% wrth iddyn nhw symud i fraenaru'r tir mewn ardaloedd cyffiniol ar ôl cyfnod o 18 mis, e.e. Bro'r Preseli, Bro Myrddin neu Bro Ddyfi. Mae eu cyfraniad nhw yn syrthio i 50% ym mlwyddyn 3 am yr un rheswm.

Erys mewnbwn y Newyddiadurwr(aig) a'r systemau cynhaliol eraill ar un raddfa at ddibenion yr ymarferiad hwn – er y gallai newid maes o law yn sgil sefydlu ardaloedd cyffiniol. Noda adroddiad gwerthusol tymor canol y prosiect bod 86% o'r rhai a holwyd yn cytuno bod cyfraniad newyddiadurol gan staff Golwg yn elfen bwysig o'r prosiect. Cytunwn â hynny.

Ar sail y rhagbydiaethau hynny gellid cyflwyno cyllideb fel a ganlyn:

**Tabl 6: Costau cynnal prosiect Ceredigion 360 dros 3 blynedd**

| | Bl 1 | | Bl 2 | | Bl 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cydlynydd** | £ | 15,000 | £ | 15,450 | £ | 15,914 |
| **Newyddiadurwr** | £ | 22,500 | £ | 23,175 | £ | 23,870 |
| **Ysgogydd lleol** | £ | 22,500 | £ | 17,381 | £ | 11,588 |
| **Gwerthwr hysbysebion** | £ | 22,500 | £ | 17,381 | £ | 11,588 |
| **Cefnogaeth dechnegol** | £ | 15,000 | £ | 15,750 | £ | 16,538 |
| **Costau prosiect** | £ | 5,000 | £ | 5,250 | £ | 5,513 |
| **Costau gwirfoddolwyr** | £ | 2,500 | £ | 3,000 | £ | 3,500 |
| **Costau teithio** | £ | 5,000 | £ | 5,250 | £ | 5,513 |
| **Adnoddau a gorbenion** | £ | 10,000 | £ | 10,300 | £ | 10,609 |
| **Rheoli, cefnogi a gweinyddiaeth** | £ | 10,000 | £ | 10,300 | £ | 10,815 |
| | | | | | | |
| | **£** | **130,000** | **£** | **123,238** | **£** | **115,445** |

Er mwyn ehangu i'r broydd cyffiniol bydd rhaid sicrhau cyllid had i ariannu 25% a 50% o swyddi'r ysgogydd a'r gwerthwr hysbysebion a nawdd. Gall fod rhywfaint o weddill arfaethedig y cynllun busnes yn fodd y gefnogi rhywfaint o hynny ond y tebygrwydd yw y bydd angen cefnogaeth gyhoeddus neu elusennol eto – o'r tua llan i Geredigion – i gefnogi'r ehangu a ragwelir ym mlwyddyn 2 a 3. Mae posibiliadau o ddenu hynny gan gronfeydd Cyngor Sir Caerfyrddin (e.e. Cronfa'r Degwm[7]) a Chyngor Sir Penfro (e.e. Grant Gwella Sir Benfro[8]).

Gyda chwyddiant ar gynnydd, rhagdybir chwyddiant cyflogau ar raddfa o 3% a chwyddiant ar gostau cyffredinol ar raddfa o 5% y flwyddyn dros y cyfnod.

## Gwirfoddolwyr

Mae'r model yn ddibynnol ar amser ac arbenigedd y staff uchod. Ond mae hefyd yn ddibynnol ar gyfraniad nifer helaeth o wirfoddolwyr lleol. Ysgogi a chefnogi'r timau lleol o wirfoddolwyr fyddai pennaf waith yr ysgogydd lleol. At hynny, byddai angen i'r newyddiadurwr(aig) a'r gwerthwr hysbysebion a nawdd hefyd feithrin perthynas greadigol ag unigolion lleol er mwyn sicrhau dull gwaith effeithiol.

Ffocws y tîm gwirfoddol fyddai'r Grŵp Llywio Lleol ar gyfer pob ardal. Y Grŵp Llywio Lleol fyddai peiriant canolog y prosiect ym mhob ardal unigol. Awgrymir y gallai'r Grŵp Llywio Lleol drefnu ei hun i grwpiau gwaith penodol, e.e. newyddiaduraeth, golygu a gwirio, casglu hysbysebion a nawdd. Byddai pob grŵp gwaith yn derbyn arweiniad a chefnogaeth gan un o'r tîm proffesiynol.

Mae cyfraniad y gwirfoddolwyr yn allweddol ac yn werthfawr. Wrth ddatblygu i'r dyfodol, a chyflwyno ceisiadau i ehangu'r cynllun i ardaloedd eraill, byddai modd mesur a gosod gwerth ariannol ar gyfraniad y Grwpiau Llywio Lleol fel cyfraniadau mewn da.

<u>Incwm</u>

Rhagdybir y byddai angen i brosiect Ceredigion 360 fod yn hunangynhaliol yn ariannol o fewn 2-3 blynedd. Mae prosiect Bro 360 wedi derbyn cryn gefnogaeth ariannol o ffynonellau cyhoeddus

[7] Cronfa'r Degwm (llyw.cymru)
[8] Grant Gwella Sir Benfro - Cyngor Sir Benfro (sir-benfro.gov.uk)

eisoes – yn benodol, Cronfa Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd. Mae hynny wedi gosod sail gadarn i'r prosiect drwy ddatblygu model a dull gweithio effeithiol.

Wrth ystyried datblygu Ceredigion 360 yn uned fusnes hunangynhaliol ynddi ei hun, mae'n rhesymol i ddisgwyl y byddai angen rhywfaint o fuddsoddiad cyhoeddus eto yn y tymor byr (1-2 blynedd) nes i'r model fedru sefyll ar ei draed ei hun. Er hynny, prif ffynhonnell incwm y prosiect, hyd y gwelwn, fyddai incwm o hysbysebion a nawdd. Mae hyn yn golygu cryn newid ymagwedd i dîm y prosiect wrth i fodel ariannu'r prosiect newid o gynhaliaeth dwy grant cyhoeddus i fenter masnachol.

## Ffynonellau incwm

O ystyried ffynonellau incwm posibl i gynnal y gyllideb isod, awgrymir y dylid ystyried y ffrydiau incwm canlynol:

- Incwm o hysbysebion
- Incwm o nawdd
- Incwm o hysbysiadau cyhoeddus
- Incwm o grantiau gan gynghorau tref a chymuned
- Incwm o Gronfa Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion
- Incwm arall o ffynonellau cyhoeddus neu elusennol

<u>Incwm o hysbysebion</u>

O edrych ar wefannau Bro Aber 360, Clonc 360 a Caron 360 ar hyn o bryd fe welir bod nifer o fusnesau wedi gosod hysbysebion ar y ddalen 'Siopa'n Lleol' neu 'Y Farchnad' – Bro Aber 360 (78), Clonc 360 (47), Caron 360 (25). Rhifau cyffelyb sydd ar wefannau rhai o fröydd Arfon – Caernarfon 360 (53), Dyffryn Nantlle 360 (33) a Bro'r Wyddfa 360 (25).

Fodd bynnag, deallwn nad yw'r cwmnïau hyn yn talu am y cyfleustra hynny ar hyn o bryd. Er mwyn sicrhau seiliau ariannol cadarn i'r prosiect wrth symud ymlaen byddai'n rheidrwydd i gwmnïau dalu am hysbysebion ar y gwefannau lleol. Mae cynigion hysbysebu yn medru bod yn gymhleth. I'n dibenion ni yma defnyddir dau fath o gynnyrch sylfaenol:

(a) hysbyseb sylfaenol ar ddalen 'Y Farchnad' (neu gyffelyb) am bris o £250 y flwyddyn (neu £25 y mis) fyddai'n cario dolen i wefan neu ddalen Facebook y cwmni neu hysbyse gyffelyb nad sy'n cario dolen ddigidol am nris o £200 y flwyddyn (neu £20 y mis); a

(b) cyfleoedd i noddi dalennau penodol o'r wefan leol (neu Ceredigion 360) am bris o £1,000 y flwyddyn (neu £100 y mis).

Byddai modd hefyd gwerthu hysbysebion ar raddfa Ceredigion 360 gyfan neu ar raddfa Bro 360 gyfan neu hyd yn oed ar lefel Golwg 360 o ddatblygu pecyn cyfansawdd a thrafod gyda chwmnïau unigol. Byddai unrhyw incwm o'r fath yn ychwanegol at y ffigyrau a nodir gennym yma.

Rhagdybir (ar sail y cwmnïau sy'n hysbysebu am ddim eisoes) y byddai modd denu o leiaf 20 cwmni ar gyfartaledd yn y 5 ardal gychwynnol i hysbysebu ar lefel sylfaenol gan godi'r rhifau hynny i 30 a 35 yn y ddwy flynedd ddilynol. Cydnabyddir bod mwy o botensial i wneud hynny mewn rhai ardaloedd na'i gilydd, e.e. Aberystwyth ac Aberteifi, ond cyfrannu i'r un gronfa sirol (uned fusnes Ceredigion 360) fyddai pob incwm o hysbysebion a ddenir o fewn y sir.

Incwm o nawdd

Ochr yn ochr a chynllun hysbysebion syml a chlir (uchod), awgrymir y dylid datblygu cynllun nawdd sy'n cynnwys cyfleoedd ehangach o gael sylw darllenwyr a defnyddwyr a hynny dros o 3, 6 neu 12 mis. Byddai'r union gynnig yn destun trafodaeth rhwng y prosiect a Golwg Cyf. maes o law

Rhagdybir y byddai modd denu 4 chwmni o bob ardal (ar gyfartaledd) i estyn nawdd o £1,000 y flwyddyn ym mhob un ardal, gyda hynny'n cynyddu i 6 a 7 yn y blynyddoedd dilynol. Gall y symiau hyn hefyd gynrychioli elfennau o hysbysebu ar raddfa sirol ar raddfeydd uwch – graddfeydd fydd i'w datblygu eto fel rhan o gynllun marchnata cyfansawdd.

At hynny, awgrymir y gellid ystyried datblygu perthynas ddeinamig rhwng Golwg 360 a'r gwefannau lleol – o ran hysbysebion cenedlaethol gan gwmnïau lleol a hysbysebion swyddi – gan ddenu incwm ychwanegol i gyllideb Ceredigion 360 yn sgil hynny. Gelwir y gefnogaeth hon yn y gyllideb yn 'incwm contra'.

Incwm o hysbysiadau cyhoeddus

O ddatblygu gwefan Ceredigion 360 i ddenu rhwng 5,000-10,000 o ddarllenwyr a defnyddwyr gellid denu cyrff cyhoeddus i osod hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion swyddi ar y llwyfan 360 am gyfraddau cystadleuol, gan ddwyn incwm ychwanegol i'r prosiect. Mae amcan o botensial y ffynhonnell incwm yma wedi ei gynnwys ym mlynyddoedd 2 a 3 y cynllun busnes, gan y bydd gwaith braenu'r tir yn y cyswllt hwn.

Incwm o grantiau gan gynghorau tref a chymuned

Un ffynhonnell arall o incwm posibl fyddai derbyn grantiau gan gynghorau tref a chymuned cefnogol. Mae yna 51 o gynghorau tref a chymuned yng Ngheredigion. Yn nhermau'r prosiect gallwn hefyd gyfrif llond llaw o gynghorau a leolir dros y ffin yn Sir Gâr a Sir Benfro – gellir ystyried y byddai 57 cyngor â diddordeb posib. Mae gallu cynghorau tref a chymuned i gyfrannu'n ariannol i brosiectau cymunedol yn amrywio'n fawr. Mae cyllidebau trefi megis Aberystwyth ac Aberteifi gryn dipyn yn fwy sylweddol na chyllidebau cynghorau cymuned gwledig.

At ddibenion yr ymarferiad hwn, felly, rhagdybiwn y byddai'r cynghorau cefnogol yn cynyddu o 10 yn y flwyddyn gyntaf i 18 i 25 yn y blynyddoedd dilynol ac y byddai'r nawdd cyfartalog yn cynyddu o £100 y cyngor i £150 a £175 y cyngor unigol dros y dair blynedd. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd cyfraniadau cynghorau tref a chymuned ond yn rhan fechan o'r incwm mewn cymhariaeth â'r incwm fyddai angen ei ddenu drwy hysbysebion a nawdd.

Incwm o gronfa Grantiau Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion

Gan bod y prosiect yn ffocysu ar ddatblygu ac ehangu o fewn Ceredigion ymddengys y byddai cronfa Grantiau Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion[9] yn ffynhonnell addas ar gyfer cefnogaeth ariannol. Mae'r prosiect yn cydweddu â meini prawf y Gronfa ac yn cydweddu â nifer o amcanion strategol Cyngor Sir Ceredigion a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol o ran eu Strategaeth Iaith 2018-23[10] a'r Strategaeth Gorfforaethol 2017-22[11].

Mae refeniw incwm ar gael gan y gronfa hyd at £10,000, £8,000 a £6,000 mewn blynyddoedd dilynol.

9 Grantiau Cymunedol - Cyngor Sir Ceredigion
10 strategaeth-iaith-ceredigion-2018-23.pdf
11 Draft Corporate Strategy (ceredigion.gov.uk)

Incwm arall o ffynonellau cyhoeddus neu elusennol

Wrth i'r model masnachol newydd yma sefydlu ac i'r incwm o hysbysebion a nawdd dyfu dros y dair blynedd mi fydd yna ddiffyg yn y gyllideb am y ddwy flynedd gyntaf o oddeutu £100,000. Er mwyn cynnal y llif arian a sicrhau llwyddiant y cyfnod sefydlu byddai'n angenrheidiol sicrhau nawdd cyhoeddus neu elusennol i gario'r diffyg hwnnw – a hynny erbyn Ebrill 2022.

Tanysgrifwyr

Byddai holi am danysgrifwyr yn fodd arall o gynhyrchu incwm – mae Golwg 360 wedi datblygu i'r cyfeiriad hynny eisoes – ond ni chredir y byddai hynny'n dichonol yn y cyswllt hwn gan y byddai'n cau mynediad at y cynnwys lleol ac yn wrthgynhyrchiol o ran y weinyddiaeth i'w gynnal.

**Tabl 7: Ffynonellau incwm posib ar gyfer Ceredigion 360 dros 3 blynedd**

| | Bl 1 | Bl 2 | Bl 3 |
|---|---|---|---|
| **Incwm o hysbysebion** | £ 22,500 | £ 40,500.00 | £ 55,125.00 |
| **Incwm o nawdd** | £ 20,000 | £ 36,000.00 | £ 49,000.00 |
| **Incwm contra** | £ 5,000 | £ 6,000.00 | £ 7,000.00 |
| **Incwm o hysbysiadau cyhoeddus** | £ - | £ 5,000.00 | £ 7,000.00 |
| **Cynghorau tref a chymuned** | £ 1,000 | £ 2,700 | £ 4,375.00 |
| **Cyngor Sir Ceredigion** | £ 10,000 | £ 8,000 | £ 6,000.00 |
| **Grantiau cyhoeddus** | £ 70,000 | £ 30,000 | £ - |
| | | | |
| | **£ 128,500.00** | **£ 128,200.00** | **£ 128,500.00** |

Credir bod y ffynonellau incwm uchod yn bosibl, yn realistig ac yn ymarferol – drwy gydweithrediad grwpiau gwaith lleol a chefnogaeth gwerthwr hysbysebion a nawdd proffesiynol. Fodd bynnag, mae'r cyfan yn dibynnu ar y gwerth mae'r hysbysebwyr a'r noddwyr yn teimlo eu bod yn ei gael o'r wefan – mewn busnes uniongyrchol neu broffil lleol. Rhaid fydd i'r prosiect fedru cyfiawnhau buddsoddiad y busnesau lleol mewn traffig i'r wefan a thraffig i'w hysbysebion/nawdd nhw'n benodol os yw'r model i barhau'n gynaliadwy ar ôl y cyfnod cychwynnol o ewyllys da. O wneud hynny ac o sicrhau nawdd cyhoeddus neu elusennol cychwynnol credir bod y cyfrif incwm a cholled isod yn realistig ac yn sail i gynnal Ceredigion 360 yn ogystal ag estyn y cynllun i ardaloedd cyffiniol i'r dyfodol. Credwn hefyd ei fod yn fodel y gellid ei efelychu yn Arfon a Gwynedd er mwyn cyfannu'r prosiect cyfan dan fantell Bro 360.

**Tabl 8: Cyfrif incwm a cholled prosiect Ceredigion 360 dros 3 blynedd**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Incwm | £ 128,500 | £ 128,200 | £ 128,500 |
| Costau | £ 130,000 | £ 123,238 | £ 115,445 |
| **Gweddill/Diffyg** | **-£ 1,500** | **£ 4,963** | **£ 13,055** |

# Cynllun Gweithredu

Er mwyn rhoi'r cynllun busnes uchod ar waith awgrymir bod angen paratoi cynllun gweithredu ar hyd yr amserlen ganlynol dros y 15 mis nesaf.

**Blwyddyn 0 (Ionawr – Mawrth 2022)**

| Gweithred | Amserlen |
|---|---|
| Cadarnhau bwriad Bro Aber 360, Caron 360 a Clonc 360 i barhau i gyfnod nesaf y prosiect. | Ionawr 2022 |
| Cyflwyno ceisiadau ar gyfer nawdd cyhoeddus neu elusennol. | Ionawr 2022 |
| Adnabod 2 ardal newydd i ymestyn y prosiect iddyn nhw. | Ionawr 2022 |
| Hysbysebu am staff penodol, e.e. Ysgogydd Lleol, Newyddiadurwr, Gwerthwr Hysbysebion a Nawdd ar gyfer dyddiad dechrau gwaith yn Ebrill 2022. | Ionawr 2022 |
| Cwblhau trefniadau monitro ac adrodd y cynllun cyfredol. | Chwefror 2022 |
| Cadarnhau perthynas gyda papurau bro yr ardaloedd cyfredol a datblygu trafodaeth gadarn gyda phapurai bro'r ardaloedd targed. | Chwefror 2022 |
| Penodi tîm o staff ar gyfer Ceredigion 360 (2022-2025). | Mawrth 2022 |
| Cadarnhau cynllun clir a syml o hysbysebion, pecyn nawdd a threfniant 'contra' ar gyfer Ceredigion 360 a'r gwefannau lleol. | Mawrth 2022 |

**Blwyddyn 1 (Ebrill 2022 - Mawrth 2023)**

| Gweithred | Amserlen |
|---|---|
| Parhau i gynnal y gwefannau a'r timau lleol cyfredol - Bro Aber 360, Caron 360 a Clonc 360. | Ebrill 2022 - |
| Anwytho tîm o staff newydd. | Ebrill 2022 |
| Adnabod hysbysebwyr a noddwyr yn y 3 ardal gyfredol. | Ebrill-Mai 2022 |
| Sefydlu Grwpiau Llywio Lleol mewn 2 ardal newydd. | Ebrill-Mai 2022 |
| Adnabod grwpiau gwaith penodol a'u dyletswyddau, e.e. newyddiaduraeth leol, golygu a gwirio, casglu hysbysebion a nawdd. | Mai 2022 |
| Adnabod hysbysebwyr a noddwyr posibl yn y ddwy ardal newydd. | Mehefin 2022 |
| Datblygu'r agweddau technegol ar 2 wefan newydd + Ceredigion 360 | Meh–Gorff 2022 |
| Paratoi deunyddiau marchnata ar gyfer 2 ardal newydd + Ceredigion 360 | Gorff–Awst 2022 |
| Lansio Ceredigion 360 gyda'r 5 ardal. | Medi 2022 |

| | |
|---|---|
| Cynnal 5 o wefannau lleol a'r grwpiau gweithredu lleol. | Medi 2022 – Mawrth 2023 |
| Cynllunio i ehangu Ceredigion 360 i 6ed ardal erbyn Ebrill 2003 ac ystyried sefydlu 7fed ardal erbyn Medi 2023 neu Ebrill 2024. | Tachwedd 2022 – Mawrth 2023 |

# Llyfryddiaeth

Gwerthusiad o’r cynllun Bro360 – adroddiad cychwynnol, adroddiad i Golwg Cyf gan Ymgynghoriaeth Wavehill, Ionawr 2020.

Gwerthusiad o’r cynllun Bro360 – adroddiad canol tymor, adroddiad i Golwg Cyf gan Ymgynghoriaeth Wavehill, Ebrill 2021.

‘Bro360 yn dathlu dwy flynedd o wneud gwahaniaeth’, Atodiad Bro 360, Golwg Cyf, 2011.

Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2017.

Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

*Hyperlocal Community News: Its current state and future prospects,* ymateb Dr Andy Roberts, Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd i ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru, 2017.

Proffil Iaith Ceredigion, Cered: menter iaith Ceredigion, IAITH Cyf., Mawrth 2016.

Bwletin Ystadegol, Canlyniadau mewn perthynas â’r Gymraeg: Yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, 2001- 2018, Llywodraeth Cymru, Mai 2019.